Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Partneriaeth i'r Parc Cenedlaethol 2025-2029



Cymeradwywyd gan
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro,
26 Mawrth 2025

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



# Cynnwys


**Rhagair gan y Dirprwy Brif Weinidog** ....... 6
**Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr** ....... 8
**Cyflwyniad gan Genhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** ....... 11
**1 Tirwedd ar gyfer bywyd a gwaith** ....... 13
1.1 Parciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig ....... 13
1.2 Mae i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro bwysigrwydd rhyngwladol ....... 13
1.3 Awdurdod y Parc Cenedlaethol ....... 14
1.4 Cefndir y cynllun hwn ....... 15
1.5 Asesiadau o effaith ....... 16
1.6 Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol ....... 16
1.7 Arfordir Penfro - amserlen ....... 17
1.8 Pwy sy’n berchen ar y Parc Cenedlaethol? ....... 21
1.9 Gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol ....... 22
1.10 Beth fydd cyflawni’r weledigaeth yn ei olygu ....... 23
1.11 Cyflwr y Parc ....... 24
1.12 Cyflawni’r Cynllun mewn partneriaeth ....... 24
1.13 Pedair thema ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth ....... 26
**2 Rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol** ....... 28
2.1 Beth yw’r rhinweddau arbennig? ....... 28
2.2 Datganiadau o arwyddocâd ....... 30
**3 Cadwraeth** ....... 36
3.1 Cefndir ....... 36
3.2 Cyflwr y Parc: Cadwraeth ....... 37
3.2.1 Tirweddau a morluniau ....... 37
3.2.2 Bywyd gwyllt ....... 38
3.2.3 Llonyddwch ....... 40
3.2.4 Awyr y nos ....... 41

3.2.5 Treftadaeth y ddaear ........ 41
3.3 Cadwraeth: cenhadaeth ........ 42
3.4 Cadwraeth: canlyniadau ........ 42
3.5 Cadwraeth: polisïau a dulliau mesur ........ 43
3.6 Cadwraeth: camau gweithredu 2025-2029 ........ 46
**4 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol** ........ 56
4.1 Cefndir ........ 56
4.2 Cyflwr y Parc: Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol ........ 57
4.2.1 Treftadaeth ddiwylliannol ........ 57
4.2.2 Ieithoedd a thafodieithoedd ........ 58
4.2.3 Cyfleoedd i fwynhau'r rhinweddau arbennig ........ 58
4.2.4 Deall y rhinweddau arbennig ........ 61
4.2.5 Mynediad anghyfartal a buddion i iechyd y cyhoedd ........ 62
4.3 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: cenhadaeth ........ 63
4.4 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: canlyniadau ........ 64
4.5 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: polisïau a dulliau mesur ........ 65
4.6 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: camau gweithredu 2025-2029 ........ 67
**5 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol** ........ 77
5.1 Cefndir ........ 77
5.2 Cyflwr y Parc: Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol ........ 78
5.2.1 Rhagolygon yr hinsawdd ........ 78
5.2.2 Rhagolygon lefel y môr ........ 79
5.2.3 Llifogydd ........ 80
5.2.4 Ansawdd dŵr ymdrochi ........ 80
5.2.5 Ansawdd cyrff dŵr mewndirol ac arfordirol ........ 81
5.2.6 Adnoddau dŵr ........ 83
5.2.7 Ansawdd aer ........ 84
5.2.8 Priddoedd a charbon yn y pridd ........ 85

5.3 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: cenhadaeth....87
5.4 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: canlyniadau....87
5.5 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: polisïau a dulliau mesur....88
5.6 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: camau gweithredu 2025-2029....91
**6 Cymunedau** ....98
6.1 Cefndir....98
6.2 Cyflwr y Parc: Cymunedau....100
6.2.1 Poblogaeth....100
6.2.2 Yr Economi....100
6.2.3 Tlodi....100
6.2.4 Tai....101
6.2.5 Trafnidiaeth a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau....102
6.3 Cymunedau: cenhadaeth....104
6.4 Cymunedau: canlyniadau....104
6.5 Cymunedau: polisïau a dulliau mesur....105
6.6 Cymunedau: camau gweithredu 2025-2029....106
**7 Y camau nesaf** ....109
**Atodiad 1 – Enghreifftiau o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau perthnasol** ....110
**Deddfwriaeth**....110
**Polisïau a chynigion** ....110
**Canllawiau ac Adnoddau**....111
**Atodiad 2 – Asesiadau o'r Effaith** ....112
**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**....112
**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**....112
**Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol** ....112
**Asesiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**....112
**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** ....112

# Rhagair gan y Dirprwy Brif Weinidog

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu Cynllun Partneriaeth newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae Arfordir Penfro wedi bod yn lle arbennig iawn i mi erioed, ac i lawer iawn o bobl eraill. Dyma ein hunig Barc Cenedlaethol arfordirol yn y DU, ac wrth i ni nesáu at ddathlu 75 mlynedd ers creu'r Parc yn 2027, mae'r Cynllun hwn yn hanfodol i'w ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae Parciau Cenedlaethol yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf trawiadol cefn gwlad yng Nghymru. Maent yn dirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol, gyda dynodiad yn rhoi'r statws uchaf i'w cadwraeth, ac mae miliynau o ymwelwyr yn eu mwynhau bob blwyddyn. Rhaid i ni alluogi ymwelwyr i gael profiadau sydd ymhlith y gorau yn y byd, gan sicrhau nad yw'r nodweddion arbennig rydyn ni'n ceisio eu gwarchod yn cael eu difrodi.

Rhaid i bob un ohonom ni barhau i hoelio sylw ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur fel blaenoriaeth gyffredinol a brys. Fe gyhoeddodd y Senedd argyfwng natur yn 2021, ac rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i'r targedau byd-eang 30 erbyn 30. Mae ein Harchwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth wedi nodi argymhellion uchelgeisiol i ni gyflawni'r targedau hyn, a byddwn yn cryfhau hyn drwy dargedau statudol newydd a fframwaith bioamrywiaeth newydd. Mae Parciau Cenedlaethol yn rhan annatod o helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'n hanfodol gweithio gyda thirfeddianwyr a phartneriaid eraill i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth cynefinoedd, ar raddfa ac yn gyflym.



Mae ein Parciau Cenedlaethol yn unigryw oherwydd er eu bod yn gartref i fywyd gwyllt, golygfeydd a daeareg anhygoel, maent hefyd yn gartref i gymunedau lleol sydd wedi byw ynddynt ers milenia. Mae'r rhyngweithio hwnnw rhwng natur a phobl wedi siapio'r tirweddau hyn – ac mae'r broses o gydbwyso'r buddiannau a'r blaenoriaethau hyn yn gofyn am bartneriaeth wirioneddol.

Rydw i'n croesawu'r broses o symud i Gynllun Partneriaeth o Gynllun Rheoli. Mae'n hanfodol bod y dull hwn o gydweithio a chyd-gynhyrchu wir wedi'i wreiddio yn y ffordd mae Awdurdod y Parc yn gweithio. Fel gwarcheidwaid un o fannau mwyaf arbennig Cymru ar gyfer y dyfodol, rydw i hefyd yn cymeradwyo ymrwymiad y Parc i weithio gyda phobl ifanc a gwrando arnynt drwy Genhedlaeth Nesaf y Parc Cenedlaethol.

Edrychwn ymlaen at gefnogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi'r weledigaeth hon ar waith.

**Huw Irranca-Davies**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig



# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae Parciau Cenedlaethol ymhlith ein llefydd mwyaf arbennig ni, a'r rheini wedi cael eu creu oherwydd eu tirweddau eithriadol. Maen nhw hefyd yn llefydd y bydd pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio'u horiau hamdden ynddyn nhw. Oherwydd hynny, mae ganddyn nhw gyfraniad economaidd hollbwysig i'w wneud, ac maen nhw'n llefydd sydd â gwerth diwylliannol a chymdeithasol uchel.

Mewn cymdeithas, rydyn ni'n wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen, ac mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn rhai y mae'n rhaid ymateb iddyn nhw. Rydyn ni hefyd yn wynebu'r hyn y gellid ei alw'n argyfwng iechyd. Ers pandemig COVID-19, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dioddef o orbryder a phroblemau iechyd meddwl eraill. Mae ein ffyrdd o fyw a'r elfennau eraill sy'n dylanwadu ar ein hiechyd (fel incwm a thai) yn arwain yn gynyddol at ganlyniadau iechyd gwael.

Rydyn ni hefyd yn wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu swyddi a thai, i bobl ifanc yn enwedig. Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yng ngweddill Sir Benfro. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd y stoc dai gyffredinol a gâi ei defnyddio fel ail gartrefi / tai gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr, sef 26.7%. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ba mor fforddiadwy yw tai. Mae'n effeithio hefyd ar y cymorth sydd ar gael i deuluoedd lleol. Ym mis Mawrth 2024, roedd dros 4,500 o bobl yn Sir Benfro ar y Rhestr Aros am Dai, heb gynnwys y rheini a oedd yn aros i drosglwyddo.



Er nad yw'n ymddangos bod diffyg cyfleoedd gwaith yn Sir Benfro, mae'r swyddi sydd ar gael yn aml yn talu cyflogau isel ac yn aml yn swyddi tymhorol. Yn unol â'r fframwaith Pontio Teg, gall partneriaid hybu cyfleoedd gwaith sy'n cyd-fynd ag adferiad cynaliadwy, gan arwain at gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau a chreu swyddi.

Ceir cysylltiad anorfod rhwng yr economi, cydraddoldeb a thlodi. Ceir hefyd gysylltiadau cryf rhwng tlodi a chanlyniadau iechyd a lles gwael. Heb fynd i'r afael â'r rhain, gallan nhw waethygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli'n barod. Dangosodd dadansoddiad yr End Child Poverty Coalition o ddata 2021/22 mai Sir Benfro oedd y sir â'r bumed ganran uchaf o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ar ôl ystyried costau tai, sef 29%. Mae disgwyl i dlodi plant gynyddu yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig.

Gall Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, fel lle, helpu i ymateb i'r heriau hyn mewn nifer o ffyrdd, gan wneud cyfraniad hollbwysig at gymunedau lleol. Ond gall hefyd wella canlyniadau mewn ffordd sy'n helpu gyda'r ymateb cenedlaethol. Gallai hyn olygu ymateb i erydu arfordirol ac addasu trywydd Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n llwybr byd-enwog, wrth gwrs. Gallai hefyd olygu gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd er mwyn i rywogaethau allu symud yn haws. A gallai olygu hyrwyddo'r Gymraeg.

Drwy warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol, ynghyd â gwarchod a gwella gallu pobl i fwynhau a deall hwnnw, bydd partneriaid yn helpu i warchod adnodd sy'n hybu'r economi a lles pobl ill dau.

Mae pobl wastad wedi addasu'n llwyddiannus, a gallwn wneud hynny nawr. Gallwn hefyd ein helpu ein hunain wrth i ni helpu'r amgylchedd o'n hamgylch. Mae'r prosiect



llwyddiannus Gwreiddiau i Adferiad yn enghraifft amlwg o hynny – pobl yn gweithio i gyflwyno newidiadau mewn llefydd, a hynny o fudd i'w hiechyd ar yr un pryd.

Nid yw ymateb i'r heriau hyn yn rhywbeth y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei wneud ar ei ben ei hun. Mae'r heriau'n rhy fawr ac yn ehangach, yn ddaearyddol ac yn thematig, na'r Parc Cenedlaethol. Mae angen cydweithredu i ymateb i'r heriau hyn. Mewn termau cyfreithiol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen hon. Serch hynny, 'Cynllun Partneriaeth' yw ein henw ni ar y ddogfen, a hynny er mwyn pwysleisio'r angen i bawb gydweithio â'n gilydd.

Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn yn para'r pum mlynedd nesaf ac yn dangos sut bydd pawb sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r lle hwn ac i'w bobl, a hynny nawr ac er budd cenedlaethau'r dyfodol.

**Tegryn Jones**

Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



# Cyflwyniad gan Genhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yn 2020, fe wnaethon ni sefydlu Pwyllgor Ieuenctid y Parc Cenedlaethol. Cenhedlaeth Nesaf y Parc Cenedlaethol yw enw'r pwyllgor bellach, a'i nod yw cyflwyno newidiadau cadarnhaol drwy gydweithio er budd y dyfodol.

Er mwyn creu newid go iawn, a newid sy'n para, rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni weithio mewn partneriaeth. Bu'n gyffrous iawn cael cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Partneriaeth hwn ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro dros y pum mlynedd nesaf. Arfordir Penfro yw ein cartref ni, ond rydyn ni'n gwybod bod pobl eraill wrth eu boddau'n ymweld â'r lle arbennig hwn hefyd. Rydyn ni eisiau gallu parhau i fyw yma yn y dyfodol. Gan hynny, mae sut y mae'r Cynllun hwn yn cefnogi cymunedau lleol yn fater hollbwysig i ni.

Mae ein Maniffesto Ieuenctid a'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ym meysydd pobl ifanc, grymuso, byw, dysgu a gweithio wedi cyfrannu at y Cynllun hwn. Rydyn ni'n falch o weld sylw'n cael ei roi i bwysigrwydd galluogi pobl ifanc i fwynhau byd natur.


Mae gan bobl ifanc gyfraniad hollbwysig i'w wneud at adfer natur ac at addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Rydyn ni hefyd yn gwybod y gall bod ym myd natur roi hwb aruthrol i les pobl. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chithau'n ymrwymo i weithio dros ddyfodol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ochr yn ochr â ni.

**Cenhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**



- Parc Cenedlaethol / National Park
- Llwybr yr Arfordir / Coast Path
- Canolfan Wybodaeth / Information Centre
- Safle Picnic / Picnic Site
- Gorsaf Reilffordd / Railway Station
- Harbwr / Harbour
- Cofeb Hanesyddol / Historic Monument
- Castell Cerrig / Stone Castle
- Man gwylio / Viewpoint
- Cromlech / Cromlech
- Hostel Ieuenctid / Youth Hostel
- Maes parcio'r Parc Cenedlaethol lle codir ffi / National Park fee-paying car park



# 1 Tirwedd ar gyfer bywyd a gwaith

## 1.1 Parciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig

Mae rhai o dirweddau godidocaf y Deyrnas Unedig wedi'u dynodi'n barciau cenedlaethol neu'n dirweddau cenedlaethol. Yng Nghymru, maen nhw'n gorchuddio 24% o arwynebedd y tir.

Dibenion statudol parciau cenedlaethol yw:

- **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.**[1]

Os bydd y dibenion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, heb fod modd datrys hynny, bydd y diben cyntaf yn cael blaenoriaeth. 'Egwyddor Sandford' yw'r enw ar hyn.

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ffurfiol yn 1952. Mae ganddo arwynebedd o 629 km2, sy'n golygu mai dyma un o'r parciau cenedlaethol mwyaf trwchus ei boblogaeth yn y Deyrnas Unedig, gyda bron i 21,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd cynghorau cymuned, tref a dinas (Cyfrifiad 2021).

## 1.2 Mae i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro bwysigrwydd rhyngwladol

**Mae harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yn sail i iechyd a lles, ffyniant a diwylliant pobl. Mae tirweddau, afonydd a dyfroedd arfordirol yn gefn i'r prosesau sy'n helpu i gynhyrchu bwyd, dylanwadu ar yr hinsawdd, lleihau llifogydd a storio carbon.**

- Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gorchuddio'r rhan fwyaf o arfordir Sir Benfro, pob ynys ar y môr, moryd Daugleddau a rhannau helaeth o Fryniau'r Preseli a Chwm Gwaun.
- Yn y Deyrnas Unedig, Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol sy'n

[1]Roedd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn rhoi'r fframwaith ar gyfer creu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dynodwyd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 1952.



barc arfordirol yn bennaf.

- Dyma un o barciau cenedlaethol lleiaf y Deyrnas Unedig, ond yma hefyd ceir tirweddau gyda'r mwyaf amrywiol.
- Dyma'r unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'i ddynodi'n bennaf am ei dirwedd arfordirol.
- Mae gan y Parc Cenedlaethol siâp unigryw, gyda phum rhan ddaearyddol wahanol: arfordiroedd y gogledd, y gorllewin a'r de, Bryniau'r Preseli, ac afon Daugleddau.
- Does unman yn y Parc Cenedlaethol ymhellach na 16km o'r môr, ac ar ei gulaf, mae'r parc yn 100m o led.
- Dyfrffordd Aberdaugleddau yw'r ail harbwr naturiol dyfnaf yn y byd.
- Yn ecolegol, dyma un o rannau cyfoethocaf a mwyaf amrywiol Cymru. Mae'n ardal o bwysigrwydd rhyngwladol i amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau. Er enghraifft, mae Ynys Gwales yn gartref i un o gartrefi huganod mwyaf y byd, ac yn Sir Benfro y ceir traean o'r parau o frain coesgoch sy'n nythu ym Mhrydain.

## 1.3 Awdurdod y Parc Cenedlaethol

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ("Awdurdod y Parc Cenedlaethol") sy'n gyfrifol am gyflawni dibenion y parc cenedlaethol yn y Parc Cenedlaethol hwn.**

**Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc Cenedlaethol wrth fynd ati i gyflawni'r dibenion.**

Mae gan nifer o sefydliadau eraill hefyd ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol ac i Egwyddor Sandford[2]. Yn ymarferol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid – sef sefydliadau, tirfeddianwyr, busnesau ac unigolion – yn cydweithio i geisio cyflawni



nodau cyffredin a nodau sy'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn yn dangos sut y mae'r partneriaid gyda'i gilydd yn helpu i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru drwy lythyr cylch gwaith gan y llywodraeth[3]. Mae'r blaenoriaethau hynny wedi'u hadlewyrchu yn y Cynllun Partneriaeth hwn.

## 1.4 Cefndir y cynllun hwn

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi cynllun rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol[4]. Mae'r cynllun newydd hwn, sy'n cael ei alw'n Gynllun Partneriaeth, ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 a 2029.

**Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn yn cyflwyno dibenion y Parc Cenedlaethol, y camau gweithredu sydd i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf, y partneriaid a fydd yn rhan o'r broses, a'r dulliau o fesur llwyddiant.**

Mae'n datblygu ar gynlluniau blaenorol, yn rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau, ac yn cynnwys gwersi a ddysgwyd drwy ymgynghori a thrwy gynnal sgyrsiau cyson â sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n bartneriaid i ni.

Wrth baratoi'r Cynllun Partneriaeth hwn, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru wrth i ganllawiau newydd gael eu paratoi ar gyfer rheoli tirweddau dynodedig yng Nghymru.

[2]Mae'r ddyletswydd i'w gweld yn adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar gyfer parciau cenedlaethol. Mae dyletswydd debyg i'w gweld yn adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer tirweddau cenedlaethol (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol).
[3]https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-08/awdurdodau-parciau-cenedlaethol-llythyr-cylch-gwaith-tymor-llywodraeth.pdf
[4]Rhaid i Awdurdod pob Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli sy'n ffurfio'i bolisi ar gyfer rheoli'r Parc dan sylw ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Parc hwnnw (Adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd, 1995).



## 1.5 Asesiadau o effaith

I gyd-fynd â'r Cynllun Partneriaeth, ceir cyfres o asesiadau statudol unigol o'i effaith. Dyma'r rhain:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Diben yr asesiadau o'r effaith yw sicrhau nad oes effeithiau negyddol i gynigion polisi, a phan fydd hynny'n bosibl, sicrhau bod polisïau posibl yn arwain at werth ychwanegol** – er enghraifft, o ran cymunedau, pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, iechyd pobl, a safleoedd bywyd gwyllt sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r asesiadau hefyd yn cael eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn datrys unrhyw wrthdaro rhyngddyn nhw.

Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad 2.

## 1.6 Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol

**Mae'r polisïau perthnasol ym maes cynllunio datblygu i'w canfod yng *Nghynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (tan 2031)*. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sydd wedi paratoi'r cynllun hwn[5].**

I gyd-fynd â *Chynllun Datblygu Lleol 2*, ceir Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau, ac mae nifer o'r rhain hefyd yn uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Partneriaeth hwn. Dechreuodd y gwaith o adolygu *Cynllun Datblygu Lleol 2* ym mis Medi 2024.

[5]Caiff y broses o roi polisïau *Cynllun Datblygu Lleol 2* ar waith ei monitro drwy Adroddiad Monitro Blynyddol a gaiff ei lunio gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae rhai o'r prif dueddiadau a welir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'u hamlygu yn y Cynllun Partneriaeth.



## 1.7 Arfordir Penfro - amserlen

**Mae gan Arfordir Penfro hanes rhyfeddol a hwnnw'n ymestyn yn ôl gannoedd o filiynau o flynyddoedd.**

Gallwn ddechrau'r stori tua 500 miliwn o flynyddoedd yn ôl (y cyfnod Cambriaidd) pan oedd moroedd bas yn gorchuddio'r rhanbarth. Daeth haenau o dywod a mwd i orwedd ar wely'r môr, a'r rhain maes o law fyddai sylfeini ffurfiannau creigiog yr ardal. Mae rhai o greigiau hynaf Sir Benfro, fel y sialau tywyll a'r tywodfeini, yn perthyn i'r cyfnod hwn.

Tua 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl (y cyfnod Defonaidd), dylanwadodd echdoriadau folcanig a symudiadau tectonig ar y dirwedd. Yn ystod y cyfnod hwn y ffurfiwyd rhai o'r clogwyni trawiadol a'r tirweddau garw a welwn heddiw.

Tua 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd yr ardal yn rhan o ddigwyddiad mawr a ffurfiodd fynyddoedd, sef yr Orogeni Farisgaidd. Achosodd hyn i greigiau blygu a ffawtio, gan ffurfio'r bryniau a'r dyffrynnoedd a welwn heddiw. Cododd yr ardal rydyn ni'n ei hadnabod fel Arfordir Penfro yn uwch, a dechreuodd grymoedd erydiad naddu'r morlin.

Parhaodd yr Oes Iâ olaf ym Mhrydain, sef y rhewlifiant Defonaidd, rhwng tua 115,000 a 11,600 o flynyddoedd yn ôl. Gorchuddiai haenau iâ rannau helaeth o Brydain, gan gynnwys rhannau o Sir Benfro. Roedd modd i bobl oroesi ar rannau mwyaf deheuol Sir Benfro bryd hynny, ac mae'r dystiolaeth o ogofeydd yn awgrymu bod y rheini wedi cael eu defnyddio gan bobl yn ystod y Palaeolithig (neu Hen Oes y Cerrig).

Cyn i'r Oes Iâ ddod i ben, roedd pont dir o'r enw'r Doggerland yn bodoli rhwng Prydain ac Ewrop. Tirwedd isel,



corsiog oedd hwn, yn llawn afonydd, llynnoedd a choedwigoedd. Y Neanderthaliaid oedd yn byw yno – ac yn ddiweddarach, Homo sapiens modern – ynghyd ag amrywiaeth toreithiog o anifeiliaid, gan gynnwys mamothiaid, eirth a chynfuail.

Wrth i'r haenau iâ encilio, datgelwyd amlinelliad syml y morlin presennol, a ffurfiwyd Môr Iwerddon. Wrth i ni gyrraedd yr Holosen (9,600 Cyn y Cyfnod Cyffredin), ac wrth i'r dirwedd ddod yn fwy hygyrch, roedd cymunedau o helwyr-gasglwyr Mesolithig yn bresennol yn yr ardaloedd arfordirol. Roedd hyn tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl (y cyfnod Mesolithig). Byddai'r cymunedau hyn wedi hela, pysgota a chasglu bwyd yn nhirwedd doreithiog y rhanbarth.

Yn ystod rhan gynnar y cyfnod Mesolithig, nid oedd dŵr yn llenwi'r holl ardal lle mae  Môr Hafren heddiw, a byddai llawer ohoni yn dirwedd arfordirol neu'n dirwedd fosaig agored, yn llawn corsydd, gwlyptiroedd a thir sych. Wrth i lefel y môr godi yn y cyfnod ôl-rewlifol, cafodd y dyffrynnoedd afonydd hynafol hyn eu boddi'n raddol. Daeth yr ardal yn dirwedd llawn morydau, cilfachau a baeau, cyn dod yn Fôr Hafren maes o law. Gwahanwyd Prydain a thir mawr Ewrop hefyd, a ffurfiwyd y Sianel, neu'r Môr Udd. Heddiw, pan fydd y llanw ar drai mewn nifer o ardaloedd o amgylch Arfordir Penfro, efallai y bydd gweddillion coedwigoedd a foddwyd yn y cyfnod hwn i'w gweld. O dro i dro, bydd mawn hynafol, gweddillion anifeiliaid ac olion traed yn cael eu datgelu ar hyd y morlin.

Yn ystod yr Oes Neolithig a'r Oes Efydd (tua 4,000 – 800 Cyn y Cyfnod Cyffredin), dechreuodd arferion amaethyddol ddylanwadu ar y dirwedd. Mae systemau caeau, cylchoedd cerrig (fel y rheini ym Mryniau Preseli) a charneddi (e.e. Pentre Ifan) yn dangos bod pobl erbyn hyn yn byw bywydau mwy sefydlog, yn hytrach na bywydau crwydrol.



Mae cysylltiad enwog rhwng Bryniau'r Preseli a Chôr y Cewri, ar ôl y darganfyddiad bod y cerrig gleision yng Nghôr y Cewri yn tarddu o'r ardal. Mae ymchwilwyr yn awgrymu bod y cerrig wedi'u cloddio o Fryniau'r Preseli (tua 3,000 Cyn y Cyfnod Cyffredin) cyn cael eu trosglwyddo neu eu symud i safle Côr y Cewri. Mae eraill wedi dadlau bod y cerrig wedi'u gadael yno'n naturiol wrth i haenau iâ symud.

Mae bryngaerau (e.e. Foel Drygarn a Chastell Henllys) a chaerau ar benrhynnau a godwyd yn ystod yr Oes Haearn (tua 1,000 Cyn y Cyfnod Cyffredin – 43 Y Cyfnod Cyffredin) yn awgrym o gymdeithas gynyddol cymhleth a oedd â hierarchaethau masnachol a chymdeithasol.

Yn y cyfnod Rhufeinig (43 – 410 Y Cyfnod Cyffredin), ehangodd aneddiadau arfordirol, a thyfodd rhwydweithiau masnach, er bod tystiolaeth uniongyrchol o aneddiadau Rhufeinig yn brin yn Sir Benfro. Wrth i lengoedd y Rhufeiniaid gilio o Brydain, daeth y rhanbarth o dan ddylanwad llwythi Celtaidd lleol eto.

Yn ystod y cyfnod canoloesol (rhwng y bumed a'r bymthegfed ganrif), sefydlwyd mynachlogydd, fel honno yn Nhyddewi, a fu'n rhan hollbwysig o Gristnogaeth gynnar yng Nghymru. Daeth Tyddewi yn gyrchfan i bererinion o bob cwr o Brydain ac Ewrop. Roedd aneddiadau arfordirol a chymunedau crefyddol Sir Benfro'n agored i ymosodiadau gan y Llychlynwyr. Ymosodwyd ar Dyddewi – dinas leiaf Prydain yn ôl maint ei phoblogaeth – sawl gwaith yn ddegfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg. Mae gan nifer o'r ynysoedd (e.e. Ynys Sgomer ac Ynys Sgogwm) enwau sy'n tarddu o'r Llychlyneg.

Ar ôl i'r Normaniaid goncro Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg, daeth darnau o Sir Benfro yn rhan o diroedd a oedd dan reolaeth Normanaidd. Cododd y Normaniaid gestyll i gryfhau eu goruchafiaeth, gan ddylanwadu ar batrymau aneddiadau wrth i gymunedau ffermio a physgota ffynnu ar hyd yr arfordir. Roedd



Castell Penfro yn gadarnle o bwys a ddaeth maes o law yn fan geni Harri VII, penteulu brenhinlin y Tuduriaid. Mae Castell Carew yn tarddu o'r ddeuddegfed ganrif, pan oedd yn gastell tomen a beili Normanaidd, cyn iddo gael ei ehangu a'i atgyfnerthu'n sylweddol yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yn ystod y Cyfnod Canoloesol a'r Cyfnod Modern Cynnar (rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r ail ganrif ar bymtheg), daeth morlin Penfro yn strategol bwysicach o ran masnachu, pysgota ac amddiffyn y tir. Bu gwrthdaro yn yr ardal, er enghraifft yn ystod gwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn awdurdod Lloegr ac yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr. Pysgota ac amaethyddiaeth oedd prif fywoliaeth llawer o bobl.

Yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygwyd porthladdoedd a diwydiannau, gan gynnwys pyllau glo, chwareli llechi a gweithdai adeiladu llongau. Arweiniodd hynny at greu trefi newydd ac at ddatblygu rhwydweithiau trafnidiaeth. Cynyddu wnaeth y boblogaeth yn sgil hyn, a chryfhaodd y cysylltiad rhwng yr arfordir a gweddill Prydain. Yn ystod Rhyfeloedd Napoleon (1803-1815), atgyfnerthodd llywodraeth Prydain ei hamddiffynfeydd ar hyd yr arfordir, gan gynnwys cryfhau'r adeileddau a oedd yno'n barod. Roedd hyn er mwyn gwarchod rhag y bygythiad o ymosodiad gan Ffrainc.

Yn ystod y Rhyfel Mawr, cryfhawyd amddiffynfeydd Sir Benfro yn wyneb y perygl o gyrchoedd ar y môr gan yr Almaenwyr. Golygodd pwysigrwydd strategol y rhanbarth, yn enwedig o ran y dociau ym Mhenfro, i fwy o amddiffynfeydd gael eu hadeiladu yn y cyfnod hwn[6]. Cryfhawyd y morlin drachefn yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a hynny oherwydd lleoliad strategol yr ardal yn agos at yr Iwerydd ac Ewrop, gan arwain at godi amddiffynfeydd a meysydd glanio newydd. Mae llawer o'r rhain yn dal i'w gweld heddiw. Cafodd ffermydd a chymunedau eu disodli gan rai



ohonyn nhw, gan gynnwys Ardal Hyfforddi Castellmartin a Maes Glanio Tyddewi.

Yn y blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, llwyddodd cymunedau Sir Benfro i wrthsefyll y bwriad i droi'r rhan helaeth o uwchdir Preseli yn ardal hyfforddi a bomio. Heddiw, mae'r amgylchiadau arbennig a'r cyfyngiadau mynediad i Ardal Hyfforddi Castellmartin yn golygu bod modd parhau i reoli'r tir i raddau helaeth, gan gynnwys cynnal yr hafod a'r hendre drwy symud da byw o dymor i dymor rhwng Castellmartin a Bryniau'r Preseli.

Yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, tyfodd twristiaeth i'r ardal yn sylweddol wrth i'r golygfeydd arfordirol, y cyfleoedd hamdden, y bywyd gwyllt a'r hanes ddenu ymwelwyr. Sefydlwyd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 1952 cyn agor Llwybr Arfordir Penfro yn 1970.

**Heddiw, mae prosesau naturiol yn dal i ddylanwadu ar dirwedd Arfordir Penfro, ac felly hefyd weithgarwch pobl – yn enwedig amaethyddiaeth, aneddiadau a thrafnidiaeth.**

## 1.8 Pwy sy'n berchen ar y Parc Cenedlaethol?

**Mae mwyafrif llethol y Parc Cenedlaethol mewn dwylo preifat, gyda thua chwarter ohono yn dir y cyhoedd neu'n eiddo i elusennau.**

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn berchen neu'n lesio tua 1% o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys safleoedd amlwg fel Castell a Melin Heli Caeriw, Bryngaer Oes Haearn Castell Henllys, ac Oriel y Parc. At hynny, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lesio rhannau mawr o'r blaendraeth i'r gorllewin ac i'r gogledd o Giltar Point gan Ystad y Goron.

Tir Comin yw tua 7% o'r Parc Cenedlaethol, tra bo dros 6% yn ddaliadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Daliadau'r

[6]Adeiladwyd Barics Llanion yn wreiddiol i warchod y Dociau ac asedau'r llynges, ond cafodd amryw o unedau eu garsiynu yno wedi hynny. Heddiw dyma bencadlys Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Weinyddiaeth Amddiffyn yw tua 4% ohono; mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn lesio neu'n berchen ar tua 1%; mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn lesio neu'n berchen ar tua 0.6%; ac mae'r Gymdeithas Naturiol er Gwarchod Adar yn lesio neu'n berchen ar tua 0.4%.

Mae Cyngor Sir Benfro yn rheoli'r lleiniau ar ymylon y ffyrdd drwy'r holl Barc Cenedlaethol (gan gynnwys rhai sy'n cael eu rheoli i ofalu am rywogaethau arbennig), yn ogystal â rheoli rhywfaint o Dir Comin[7], coetiroedd a gweirgloddiau.

Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn cael eu rheoli'n benodol i warchod yr amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol (neu i gyd-fynd, i raddau, â gwaith i wneud hynny). At y rhestr hon, gellid ychwanegu nifer o ddaliadau preifat, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu rholi o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd.

## 1.9 Gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol

**Sicrhau dyfodol ffyniannus, cynaliadwy i'r amgylchedd ac i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol ac yn ymweld â'r ardal.**

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dyst i'r cysylltiadau grymus rhwng pobl a'r dirwedd, a'r rheini'n esblygu o hyd.

Mae pob nodwedd – y morlin trawiadol, y bryniau braf a'r morydau coediog – yn adrodd stori ryfeddol am harddwch naturiol, diwylliant a threftadaeth.

Mae dibenion y Parc Cenedlaethol yn glir: gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a rhoi cyfleoedd i bawb gysylltu â thirweddau mewn ffyrdd sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth ni ohonyn nhw. Mae'r Parc Cenedlaethol i bawb. Mae'n lle croesawgar, lle gall pobl fwynhau a helpu i warchod ei rinweddau arbennig.

[7] O dan Adran 9 o Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 (tir comin heb ei hawlio).



Mae'r cysylltiad a thirweddau hefyd yn rhychwantu amser. Drwy ddod ynghyd i helpu i adfer y tirweddau a'r morluniau eiconig hyn, byddwn ni'n gadael gwaddol i genedlaethau'r dyfodol, a fydd yn gallu parhau i fyw yn y llefydd syfrdanol hyn, eu mwynhau, a chael eu hysbrydoli ganddyn nhw.

## 1.10 Beth fydd cyflawni'r weledigaeth yn ei olygu

Bydd prosesau naturiol yn cael eu galluogi a'u hadfer, a bydd bywyd gwyllt yn adfer wrth i ni fynd i'r afael â'r argyfwng natur drwy wneud gwaith ehangach i reoli tir yn gynaliadwy a gwneud gwaith cadwraeth ar raddfa fwy. Bydd y tir a'r môr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â phrosesau naturiol, a bydd y Parc Cenedlaethol yn un gwydn sy'n doreithiog o fyd natur. Bydd cynefinoedd yn cael eu gwella, eu hehangu a'u cysylltu â'i gilydd.

Bydd y camau hyn yn helpu i reoli'r hinsawdd a'r tywydd, ac yn hybu ffurfiant pridd, storio carbon a peillio. Bydd hyn hefyd yn cryfhau'r amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd, ac yn helpu i ailgylchu dŵr a maethynnau.

Mae ecosystemau amrywiol, iach yn fodd o warchod rhag newid amgylcheddol. Y rhain sy'n rhoi sail i les a ffyniant pobl, ac maen nhw'n sylfaen i nifer o elfennau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd ein bywydau, gan gynnwys diwylliant ac ysbrydolrwydd.

Bydd tirweddau hanesyddol ac asedau treftadaeth yn cael eu gwarchod, a bydd modd meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw. Bydd pawb yn mwynhau ac yn dathlu harddwch naturiol a threftadaeth. Bydd y Gymraeg yn amlwg iawn, a'r defnydd o'r iaith yn ffynnu yn y Parc Cenedlaethol.



Mae hygyrchedd cynhwysol a chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r Parc Cenedlaethol yn un o gonglfeini'r weledigaeth hon. Bydd hyn yn galluogi pawb, waeth beth yw eu cefndir, i brofi a chysylltu â'r lle unigryw hwn.

Bydd perthynas ddwyochrog a theg i'w chael rhwng ymwelwyr, yr amgylchedd a chymunedau lleol. Bydd yr economi ymwelwyr yn ffordd o greu newid cadarnhaol.

Bydd gweithgarwch economaidd yn helpu i adfer prosesau naturiol a gwerth y dirwedd. Bydd hyn hefyd yn cryfhau gallu'r Parc Cenedlaethol i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bydd yr economi leol yn un sydd wedi'i seilio ar arferion cyfrifol, atgynhyrchiol, gyda cyfleoedd gwerth chweil i bobl heddiw, ac i genedlaethau'r dyfodol, i fyw a gweithio yn yr ardal ac ymweld â hi.

## 1.11 Cyflwr y Parc

**Mae gwybodaeth fanwl am gyflwr y Parc i'w gweld mewn adroddiad ar wahân[8].** Rydyn ni'n cyflwyno rhywfaint o'r wybodaeth a'r negeseuon pwysicaf o'r adroddiad hwnnw yn rhannau perthnasol y Cynllun hwn.

Mae'r wybodaeth yn rhoi darlun o gyflwr presennol gwahanol elfennau'r Parc Cenedlaethol a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n bodoli. Mae'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer creu polisïau a gweithredu.

## 1.12 Cyflawni'r Cynllun mewn partneriaeth

Mae tirweddau dynodedig yn asedau cenedlaethol ac yn un o'r prif ddulliau o gyflawni uchelgeisiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Cynllun yw hwn felly ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, ac nid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig[9].

[8]"Adroddiad Cyflwr y Parc": Atodiad B Llinell Sylfaen yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.
[9] Mae Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a chynlluniau cyflawni Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn amlinellu rolau'r Awdurdod wrth weithredu, a'r partneriaid sy'n cymryd rhan



**Mae eisoes nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n helpu i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.** Yn eu plith mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, Partneriaeth Natur Sir Benfro, a'r Byrddau Rheoli Maethynnau.

Mae Partneriaethau fel y rhain yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r Cynllun. Serch hynny, mae gan sefydliadau sy'n bartneriaid i ni gyfraniadau ychwanegol i'w gwneud wrth roi'r Cynllun ar waith ac wrth ei fonitro. Bydd y cyfraniadau hyn yn aml yn cyd-fynd â rolau a chyfrifoldebau presennol y partneriaid.

**Yn dilyn trafodaethau â phartneriaid, dangoswyd yn glir y dylai fod hefyd bartneriaeth neu fforwm cyffredinol i bennu a llywio cyflawniadau'r Cynllun ac i graffu ar y rheini.** Cafodd grŵp o'r fath ei gyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr 2025. Bwriedir i'w aelodaeth fod yn gynhwysol, a gall yr aelodaeth newid, gan gynnwys carfan ehangach o randdeiliaid. Dylai'r grŵp allu bwrw golwg gyffredinol ar bethau.

Bydd grŵp y Cynllun Partneriaeth yn llywio ac yn adrodd am sut y cyflawnir y Cynllun hwn, a bydd yn gallu cyfrannu at y gwaith o'i adolygu.

Bydd partneriaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Cynllun Partneriaeth yn sail i'w strategaethau a'u cynlluniau eu hunain, ac i rannu a dathlu'r cyfraniadau hynny at ddibenion y Parc Cenedlaethol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd am y cynnydd ac am yr effaith.

Ni fwriedir i'r rhestrau o brif bartneriaid a phartneriaid allweddol a nodwyd yn y cynllun hwn fod yn gynhwysfawr. Mae llawer o sefydliadau, cymunedau ac unigolion eraill yn ymwneud â chyflawni.



## 1.13 Pedair thema ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth

**Mae'r Cynllun Partneriaeth wedi'i seilio ar weithredu o dan bedair thema sy'n cyd-fynd â'i gilydd:**

- **Cadwraeth**
- **Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol**
- **Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol**
- **Cymunedau**

Mae'r themâu'n cyd-fynd yn uniongyrchol â dibenion a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Maen nhw'n cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer llesiant, yr hinsawdd, adnoddau naturiol a gwydnwch ecosystemau[10]. Ceir chwech o genadaethau sy'n adlewyrchu dibenion y Parc Cenedlaethol a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i geisio cyflawni'r dibenion.

Mae'r themâu a'r cenadaethau hefyd yn cyd-fynd â'r canlynol:

- egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- y blaenoriaethau a geir yn Natganiad Ardal y De-Orllewin a'r Datganiad Ardal Morol a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau pwysig; ceir enghreifftiau o'r rhai presennol mewn rhestr yn Atodiad 1

[10]Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



## Cadwraeth

CENHADAETH: **Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, harddwch naturiol a bywyd gwyllt.**

Y CYSYLLTIADAU Â'R NODAU LLESIANT:

- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru lewyrchus
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol

CENHADAETH: **Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hybu'r Gymraeg. Gwella hygyrchedd y Parc Cenedlaethol mewn ffordd deg a helpu pawb i'w fwynhau, i'w ddeall ac i gael buddion iechyd drwy ei rinweddau arbennig.**

Y CYSYLLTIADAU Â'R NODAU LLESIANT:

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru lewyrchus
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus

## Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

CENHADAETH: **Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r rheini.**

Y CYSYLLTIADAU Â'R NODAU LLESIANT:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru lewyrchus
- Cymru fwy cyfartal

## Cymunedau

CENHADAETH: **Meithrin llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol wrth geisio cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.**

Y CYSYLLTIADAU Â'R NODAU LLESIANT:

- Cymru o gymunedau mwy cydlynus
- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru fwy cyfartal

# 2 Rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

## 2.1 Beth yw'r rhinweddau arbennig?

**Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn cyfeirio at rinweddau arbennig Parciau Cenedlaethol yng nghyd-destun ail ddiben y Parc Cenedlaethol, sef:**

> ***"hyrwyddo cyfleoedd i helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol."***

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol restr o'r rhinweddau arbennig hyn, sydd wedi'u seilio ar farn pobl ac ar asesiadau ffurfiol o'r dirwedd. Mae gwarchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn un o amcanion strategol polisïau cynllunio datblygu'r Parc Cenedlaethol.

Bydd y rhestr o rinweddau arbennig yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Yn 2024, gofynnodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i bobl beth oedd rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn eu barn nhw. Gofynnwyd i bobl hefyd restru'r risgiau sy'n bygwth y rhinweddau hyn, ac i awgrymu unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd i'w gwarchod.

Yn sgil yr arolwg, rhoddwyd mwy o bwyslais yn y Cynllun hwn ar y Gymraeg a thafodieithoedd, ac ar amgylchedd synhwyraidd y Parc Cenedlaethol – gan gynnwys morluniau mawr, sensitifrwydd gorwel y môr yng nghyd-destun datblygu, seinweddau nodweddiadol, ac awyr dywyll.



Dyma rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

- Tirweddau a morluniau ac iddyn nhw amrywiaeth ac ansawdd eithriadol
- Golygfeydd arfordirol rhagorol
- Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored
- Traethau
- Daeareg a geomorffoleg ysblennydd
- Bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol
- Llonyddwch, seinweddau a'r gwyllt
- Awyr dywyll
- Treftadaeth a diwylliant cyfoethog
- Y Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro
- Patrymau hanesyddol aneddiadau ac adeiladau
- Patrymau hanesyddol defnyddio tir a ffiniau traddodiadol
- Cyfleoedd ardderchog i fwynhau a phrofi'r Parc Cenedlaethol
- Rhwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy
- Cyfuniad o'r rhinweddau arbennig
- Ymdeimlad o gymuned a gofal



## 2.2 Datganiadau o arwyddocâd

Mae'r tabl isod yn ceisio crynhoi hanfod profiadau pobl o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

### Tirweddau a morluniau ac iddyn nhw amrywiaeth ac ansawdd eithriadol

**Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dirwedd ar gyfer bywyd a gwaith. Mae'n lle llawn harddwch naturiol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.** Mae'r rhan unigryw hon o Gymru'n galluogi pobl i fwynhau a chrwydro drwy nifer o dirweddau arfordirol a mewndirol, er mai cymharol fychan yw arwynebedd yr ardal.

### Golygfeydd arfordirol rhagorol

**Dyma'r unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'i ddynodi'n bennaf am ei forlin.** Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn ymestyn i gymedr y distyll, ond mae Sir Benfro yn sir forol, ac mae'r gallu i gyrraedd yr arfordir, dyfroedd y glannau, y dyfrffyrdd a'r afonydd yn rhan hollbwysig o brofiadau pobl o'r Parc Cenedlaethol.

Mae'n Barc Cenedlaethol sy'n enwog am ei forlin ysblennydd a'i forluniau mawr, a cheir yma ynysoedd ac ynysigau, traethau tywodlyd, clogwyni trawiadol a phentiroedd garw.

### Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored

Mae'r bryniau, y pentiroedd a'r ynysoedd yn **rhoi golygfeydd panoramig i gipio'ch anadl, gyda'r môr, gweddill y sir a hyd yn oed forlinau gogledd Cymru, Iwerddon a Lloegr i'w gweld, gan gynnwys Ynys Wair**. Mae Bryniau'r Preseli yn rhan o dirwedd hynafol, agored, drawiadol, lle ceir rhosydd a gweundiroedd bryniog ynghyd â chreigiau gwasgaredig sy'n brigo i'r wyneb. .

### Traethau

**Yn y Parc Cenedlaethol, mae tua thrigain o draethau y gall y cyhoedd ymweld â nhw.** Yn eu plith mae traethau eang, tywodlyd a hygyrch; baeau a chilfachau bychan, caregog, anghysbell; a



phopeth rhyngddyn nhw. Ar rai traethau, fel traeth y gogledd yn Ninbych-y-pysgod, mae'r treflun a'r harbwr yn rhan lawn cymaint o'r profiad â byd natur mewn llefydd eraill.

**Traethau yw un o nodweddion mwyaf hygyrch a phoblogaidd y Parc Cenedlaethol, ac maen nhw'n ganolog i'w gymeriad.** Ar y cyfan – ac yn enwedig pan na fydd y tymor ymwelwyr ar ei brysuraf – mae'r traethau'n cynnig profiad gwyllt a phellennig lle gall pobl fod yn agos iawn at yr elfennau, os nad yn eu canol yn llwyr.

## Daeareg a geomorffoleg ysblennydd

**O safbwynt daearegol, mae'r ardal yn eithriadol. Treftadaeth y ddaear oedd un o'r prif resymau dros ddynodi'r ardal yn Barc Cenedlaethol.** Mae clogwyni garw a ffurfiant creigiau yn adrodd stori miliynau o flynyddoedd o weithgarwch daearegol.

Mae gan y Parc Cenedlaethol dystiolaeth o dirweddau hynafol, gweddillion wedi'u ffosileiddio a phrosesau daearegol, a'r rheini i'w gweld heddiw. Mae'n golygu bod yr ardal yn adnodd byd-enwog ym maes ymchwil ac addysg.

## Bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn enwog am ei fioamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd prin a rhywogaethau sydd mewn perygl.**

Mae adar yr arfordir – fel y frân goesgoch, yr ehedydd a chlochdar y cerrig – ynghyd â phob math o famaliaid bychan, ymlusgiaid a phryfed yn ffynnu mewn cynefinoedd arfordirol. Mae adar y môr, fel y pâl a gwalch y penwaig, yn nythu ar yr ynysoedd ac ar glogwyni.

Mae Bryniau'r Preseli yn gartref i adar yr uwchdir. Mae rhosydd yr iseldir yn cynnal amrywiaeth toreithiog o bryfed, gan gynnwys amrywiaeth o beillwyr a mursen las Penfro, sy'n brin. Mae'r pathew i'w ganfod yng nghoetiroedd Sir Benfro, tra bo Ardal Hyfforddi Castellmartin yn un o'r ychydig lefydd yn y Deyrnas Unedig lle mae'r gardwenynen feinllais i'w chanfod. Mae 16 o rywogaethau ystlumod i'w cael yn y Deyrnas Unedig, ac mae deuddeg o'r rhain i'w canfod yn y Parc Cenedlaethol.



Mae blaenau coediog y moryd ac afonydd Cleddau yn hafan heddychlon i adar hirgoes ac adar dŵr.

Ar yr arfordir, yn nyfroedd y glannau ac ar yr ynysoedd, ceir cytrefi adar môr sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, tra bo'r rhain hefyd yn gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau morol. Bydd morloi llwyd yn rhoi genedigaeth ar y glannau, a bydd modd gweld dolffiniaid a llamhidyddion yn nyfroedd yr arfordir. Ar achlysuron prinnach, fe welwch heulgwn, pysgod haul a chrwbanod.

## Llonyddwch, seinweddau a'r gwyllt

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnig gwledd iachaol i'r synhwyrau gydol y flwyddyn –tawelwch, trydar yr adar, a blas yr heli.**

Mae gan bawb ei syniad ei hun o ystyr llonyddwch a'r gwyllt, ond gan amlaf, maen nhw'n golygu ymdeimlad o bellter neu bellenigrwydd – o ffyrdd, o ardaloedd adeiledig a/neu o bobl.

Mae'r môr di-ben-draw, y cynefinoedd lled naturiol a'r seinweddau naturiol yn creu ymdeimlad cryfach o lonyddwch. Oherwydd hynny, bydd y gwyllt/pellenigrwydd a llonyddwch yn aml, er nad wastad wrth gwrs, i'w canfod law yn llaw.

## Awyr dywyll

**Mae tywyllwch yn datguddio ysblander diymffrost awyr y nos, a hwnnw i ni'n edrych yn debyg iawn i sut yr edrychai i'r bobl a fu yma o'n blaenau.**

Ceir ardaloedd helaeth yn y Parc Cenedlaethol lle nad oes llawer o lygredd golau, ac mae wyth o Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r safleoedd hyn yn rhai hygyrch, gyda llefydd parcio wrth law, ac maen nhw'n rhoi golygfeydd da o awyr y nos pan na fydd cymylau na lleuad.



## Treftadaeth a diwylliant cyfoethog

**Mae tystiolaeth yn y Parc Cenedlaethol o weithgarwch pobl dros filoedd o flynyddoedd, ar ffurf darganfyddiadau, cofebion, parciau a gerddi, a thirweddau cyfan.** Mae'r rhain, ynghyd â'r amgylchedd naturiol, yn gefnlen i chwedlau a straeon llên gwerin di-ri, a hynny'n adlewyrchu treftadaeth Gymreig unigryw.

## Y Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn bair o ieithoedd, tafodieithoedd – Cymraeg a Saesneg – a slang. Mae'r iaith sydd i'w chlywed yma'n dyst i ymwneud amrywiol pobl â llefydd, a hynny wedi ysbrydoli llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd dros y cenedlaethau.**

Mae canran uwch o bobl yn ardaloedd cynghorau cymuned gogledd y Parc Cenedlaethol yn gallu siarad Cymraeg, tra bo'r iaith ar hyn o bryd yn adfywio yn ne'r Parc Cenedlaethol, gyda chymorth cyfleoedd i gael addysg Gymraeg ledled y sir.

## Patrymau hanesyddol aneddiadau ac adeiladau

**Mae'r aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol yn unigryw a thrawiadol, a'r rheini'n gyfle i weld technegau adeiladu lleol ac arddulliau archeolegol mwy ffurfiol.** Yn Ninbych-y-pysgod, mae pensaernïaeth diwedd y cyfnod Sioraidd yn amlwg iawn y tu mewn i hen furiau'r dref, tra bo dylanwad cynlluniau aneddiadau canoloesol yn dal i'w weld yn Nhrefdraeth ac Angle, yn sgil patrwm y strydoedd a phatrymau canoloesol y caeau o'u hamgylch.

**Mae natur unigryw a lleol y gwaith adeiladu'n amlwg ym mhobman yn yr amgylchedd adeiledig;** o fanylion pensaernïol bychain i arddulliau adeiladau cyfan.

**Mae swyddogaethau hanesyddol nifer o drefi a phentrefi yn dylanwadu ar eu cymeriad.** Gwedd draddodiadol sydd i Solfach, er enghraifft, gyda'r adeiladau'n adlewyrchiad o hanes y pentref



fel harbwr diwydiannol a lle pwysig yn y fasnach galch ar ôl yr oesoedd canol.

**Mae ffermydd, plastai gwledig a thyddynnod yn britho'r dirwedd, a'r rheini gan amlaf yn syml a chadarn eu hadeiladwaith ac yn sefyll ar safleoedd hŷn. Ceir hefyd eglwysi a chapeli rif y gwlith, a'r capeli'n aml ar safleoedd hynafol iawn.** Mae lleoliad yr adeiladau hyn yn aml yn bwysig, ac maen nhw'n aml yn cynnwys ffiniau hanesyddol a chwrtilau.

## Patrymau hanesyddol defnyddio tir a ffiniau traddodiadol

**I bob diben, tirwedd sy'n cael ei rheoli yw'r Parc Cenedlaethol heddiw, ac mae ffermio wedi dylanwadu ar rannau helaeth o'r dirwedd ac ar fywyd gwyllt.** Heddiw, ffermydd llaeth a geir yn bennaf yma, gyda gwartheg a defaid, ynghyd a rhywfaint o dir âr.

**Mae ffiniau traddodiadol – sy'n cynnwys cloddiau, perthi a gwrychoedd Sir Benfro, coedwigoedd ffermydd, a choed yn y dirwedd – yn creu plethwaith cywrain. Dyma un o nodweddion mwyaf unigryw tirwedd y Parc Cenedlaethol, ac mae hyn yn anghyffredin mewn mannau eraill.**

Mae ffiniau traddodiadol yn diffinio, yn rhwymo ac wedi helpu i warchod lleiniau llai o gaeau. Ar hyd ochrau heolydd a hawliau tramwy, bydd ffiniau traddodiadol yn creu ymdeimlad o dir caeëdig, cyfarwydd. Maen nhw hefyd yn rhwydwaith hollbwysig i fywyd gwyllt, wrth i enwau caeau roi syniad o sut y byddai tir ac adeiladau'n arfer cael eu defnyddio, neu syniad o bwy oedd yn berchen arnyn nhw.

## Cyfleoedd ardderchog i fwynhau a phrofi'r Parc Cenedlaethol

**Gydag atyniadau naturiol a diwylliannol fel y rhain, mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn llawn dop o gyfleoedd hamdden i'w darganfod nhw, a'r rheini o fudd i iechyd a lles pobl.**



Bydd ymwelwyr yn tyrru yma o bell ac agos, a chafwyd bron i 8 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr yn 2023. Mae'n golygu bod Arfordir Penfro yn gyrchfan o bwys i bobl sy'n awyddus i ymlacio, crwydro neu anturio.

## Rhwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy

**Cerdded yw'r gweithgaredd hamdden mwyaf arwyddocaol yn y Parc Cenedlaethol o bell ffordd.** Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 300km o hyd, ac yn adnodd heb ei ail. Yn y mewndir, ceir dyffrynnoedd cudd, coetiroedd hynafol ac afonydd braf i'w crwydro a'u mwynhau, a'r rheini'n hygyrch diolch i 1000+ km yn rhagor o hawliau tramwy a 6,600 hectar o dir hygyrch.

Mae'r hawliau tramwy'n cysylltu cymunedau â'i gilydd ac yn galluogi pobl i ganfod iechyd, hapusrwydd a lle i enaid gael llonydd yn yr awyr iach agored, yn nyfroedd y glannau, ac yn seinweddau nodweddiadol y Parc Cenedlaethol.

## Cyfuniad o'r rhinweddau arbennig

**Gellir ystyried y cyfuniad o'r rhinweddau arbennig hyn, yn yr ardal gymharol fechan hon, yn rhinwedd arbennig ynddi'i hun.**

Drwy ystyried y rhinweddau arbennig ar y cyd, yn ogystal ag yn unigol, gall partneriaid gynnal, adfer a dylanwadu ar natur unigryw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro er budd cenedlaethau'r dyfodol.

## Ymdeimlad o gymuned a gofal

**Am y rhesymau hyn a rhagor, bydd y trigolion lleol ac ymwelwyr yn meithrin perthynas gydol oes ag Arfordir Penfro. Mae'r Parc Cenedlaethol yn galluogi pobl i ganolbwyntio ar bethau cyffredin, ac mae'n eu huno drwy greu ymdeimlad o gymuned a gofal, lle, hunaniaeth a balchder.**



# 3 Cadwraeth

## 3.1 Cefndir

Mae dibenion y Parc Cenedlaethol wedi'u seilio ar warchod harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Mae'r tair elfen yn sail i ansawdd a swyddogaeth y dirwedd, ac yn aml mae'n well eu hystyried law yn llaw â'i gilydd.

Mae cynefinoedd iach, cysylltiedig yn hanfodol i fywyd gwyllt ac i swyddogaeth a gwydnwch yr ecosystem ehangach. Mae treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y defnydd hanesyddol o dir a phatrymau caeau, hefyd yn ganolog i gysylltedd ac apêl y dirwedd.

Mae rheoli tir heddiw yn ffactor o bwys sy'n effeithio ar brosesau naturiol, ar iechyd yr ecosystem, ac ar allyriadau carbon. Mae gwaith cadwraeth yn ceisio annog a galluogi amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy fel ffordd o adfer tirweddau sydd ag ecoleg doreithiog, hanes arwyddocaol, ac economi hyfyw.

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argymhellion ar gyfer yr adferiad natur, gan bwysleisio bod angen rheoli tirweddau dynodedig yn effeithiol, ynghyd â chymryd camau yn ddiymdroi i greu cynlluniau gweithredu ar gyfer adfer natur, a'r rheini'n cynnwys blaenoriaethau penodol.

**Ymrwymiad cenedlaethol o bwys, ac un o nodau'r Cynllun hwn, yw'r targed 30x30: gwarchod 30% o arwyneb y blaned erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen gwneud gwaith sylweddol i ehangu, gwella a chysylltu ardaloedd cadwraeth, gan seilio hynny ar egwyddor rhwydweithiau ecolegol gwydn.**

Y tu hwnt i 30x30, yr uchelgais yw adfer ecosystemau a phoblogaethau bywyd gwyllt fel eu bod mewn cyflwr ffyniannus, cynaliadwy erbyn 2050.



Dim ond rhan o’r llwybr i adferiad yw safleoedd cadwraeth dynodedig; rhaid i’r dirwedd ehangach gefnogi’r safleoedd hyn a chreu mwy o werth i fyd natur ei hun. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro yn cyfeirio at broblemau o bwys gan gynnwys colli cynefinoedd, y newid yn yr hinsawdd, a rhywogaethau ymledol. Mae’n awgrymu camau gweithredu i ddadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Nid yw rhan fawr o’r Parc Cenedlaethol yn cael ei rheoli er mwyn gwarchod byd natur. Mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chynllun lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Gwarchod y Parc, yn gweithredu ar dir preifat. Mae gan y rhain gyfraniad o bwys i’w wneud er mwyn cyflawni 30x30 a chyrraedd targedau adfer natur y dyfodol.

## 3.2 Cyflwr y Parc: Cadwraeth

### 3.2.1 Tirweddau a morluniau

Ceir 28 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd gwahanol sydd naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, Ceir hefyd 44 o Ardaloedd Cymeriad Morlun ar gyfer yr arfordir a dyfroedd tiriogaethol y glannau hyd at 12 milltir forol o arfordir Sir Benfro hyd at derfyn llanw Daugleddau.

Mae nifer o elfennau’n gallu rhoi pwysau ar ansawdd y dirwedd a’r morlun. Byddai’r rhan fwyaf o’r materion a gaiff sylw yn y Cynllun Partneriaeth hwn yn gallu effeithio ar ymddangosiad y dirwedd a’r modd y mae’n gweithredu. Serch hynny, mae’r canlynol yn arbennig o berthnasol o ran ansawdd y dirwedd a’r morlun, ac o ran y swyddogaethau ecolegol sy’n sail i hynny:

- Arferion rheoli tir, sydd â goblygiadau penodol i gynefinoedd lled naturiol a’r bywyd gwyllt sy’n gysylltiedig â’r rheini, ac i’r gwaith o reoli adnoddau naturiol fel priddoedd a dŵr.
- Datblygu, gan gynnwys datblygiadau ar y môr. Mae angen i’r rhain warchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol[11].



- Y newid yn yr hinsawdd, a allai newid dosraniad bioamrywiaeth yn sylweddol, ynghyd â newid cnydau, arferion ffermio, ac ymddangosiad yr arfordir, ardaloedd isel a bryniau.

Bydd haen weledol a synhwyraidd LANDMAP, sef adnodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael ei adolygu yn ystod oes y Cynllun hwn. Bydd cynnyrch y broses honno'n diweddaru'r wybodaeth am gyflwr yr elfennau hyn yn y Parc Cenedlaethol, ac yn fodd o ganfod y pwysau a'r tueddiadau yn hyn o beth.

### 3.2.2 Bywyd gwyllt

Mae pwysigrwydd y Parc Cenedlaethol o ran bioamrywiaeth i'w weld yn nifer uchel y safleoedd cadwraeth dynodedig. Mae'r canlynol yn rhan o'r Parc Cenedlaethol, naill ai'n llwyr neu'n rhannol:

- 15 Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n gorchuddio dros 9,000 hectar . Ar sail data a gasglwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o blith yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, dim ond 36% o'u nodweddion sydd mewn cyflwr ffafriol o ran eu statws.
- 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig sy'n gorchuddio 2,400 hectar . O blith yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, 75% o'u nodweddion sydd mewn cyflwr ffafriol o ran eu statws.
- Mae ffiniau tri Safle Morol Ewropeaidd  yn gorgyffwrdd â 100% o forlin y Parc Cenedlaethol.
- 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn gorchuddio 11,355 hectar. Mae tua 80% o holl forlin y Parc Cenedlaethol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig.
- 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol: Coedwig Pengelli, Ynys Dewi, Ynys Sgogwm, Ynys Sgomer, Ystagbwll, Tŷ Canol ac Ynys Gwales.
- 1 Parth Cadwraeth Morol: Ynys Sgomer.



- 1 Gwarchodfa Natur Leol: Freshwater East.

Mae cyflwr bywyd gwyllt yn dal yn bryder mawr ar drothwy cylch y Cynllun hwn. Yn ôl Sefyllfa Natur: Cymru 2023, mae bywyd gwyllt yng Nghymru yn gyffredinol wedi dirywio 20% ers 1994, ac mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru yn wynebu risg o ddifodiant.

Er bod 11% o dir Cymru wedi'i ddynodi ar gyfer gwarchod byd natur, dim ond 35% o'r nodweddion a aseswyd sydd mewn cyflwr ffafriol. Mae dros hanner ardal forol Cymru yn rhan o ardaloedd morol gwarchodedig, ond nid yw dros 50% o'r nodweddion sydd ynddyn nhw mewn cyflwr ffafriol.

Mae'r amgylchedd morol yn wynebu nifer o heriau. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ddosraniad rhywogaethau ac ar iechyd ecosystemau morol; gall rhywogaethau estron goresgynnol ddisodli rhywogaethau brodorol; a gall gweithgarwch pobl fel pysgota a thwristiaeth darfu ar bethau.

Mae tua 60% o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli i gynhyrchu bwyd neu borthiant. Gellid dweud bod tua un rhan o bump y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli'n benodol i warchod yr amgylchedd naturiol, neu'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chamau i wneud hynny . At hyn, gellid ychwanegu'r tir anhysbys sy'n cael ei reoli'n breifat at ddibenion cadwraeth.

Mae'n ymddangos felly y byddai modd cyflawni'r targed 30x30, er nad yw rheoli er budd cadwraeth o anghenraid yn gyfystyr â sicrhau canlyniadau cadwraeth, yn nhermau creu amodau ffafriol i gynefinoedd a rhywogaethau. At hynny, er gwaethaf nifer o lwyddiannau unigol, mae cyflwr cyffredinol bioamrywiaeth yng Nghymru'n awgrymu y dylai'r targed 30x30 fod yn fwy, a bod angen ystyried ffactorau fel maint darnau o dirwedd a chysylltedd fel rhai hanfodol i gyflawni'r targed.



### 3.2.3 Llonyddwch

Gellir disgrifio llonyddwch fel cyflwr o osteg a thawelwch sy'n gysylltiedig â heddwch, a hwnnw'n cael ei ystyried yn ased o bwys mewn tirwedd .

Er y gellid ystyried bod llonyddwch i'w ganfod mewn darnau sylweddol o'r Parc Cenedlaethol, yn ôl y rhan fwyaf o ddiffiniadau, gall sŵn traffig neu ddefnyddio cerbydau mewn ffordd ansensitif neu anghyfreithlon darfu ar y llonyddwch a'r tawelwch hwnnw. Mae gweithgarwch milwrol yn creu cryn sŵn. Mae'n bosibl y bydd tyrbinau gwynt a seilwaith trydan a chyfathrebu i'w cael mewn ardaloedd amlwg / anghysbell, a gall hyn darfu ar yr elfen led-naturiol neu ar ba mor ymddangosiadol wyllt yw ardal.

Nid yw llonyddwch gan amlaf yn golygu distawrwydd llethol. Mae'n cynnwys synau a all gyfrannu at ymdeimlad o le, fel trydar adar ar dir fferm neu suo pryfed. Mae adfer seinweddau naturiol sydd wedi'u colli, sef un o ganlyniadau'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn debygol o fod yn fater llawer mwy heriol na mynd i'r afael â sŵn nad oes neb eisiau'i glywed.

[11]Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun datblygiadau ynni / datgarboneiddio mawr – fel tyrbinau gwynt ar y môr – a'r seilwaith cysylltiedig, a allai gael effaith weledol ar y Parc Cenedlaethol, hyd yn oed os ydyn nhw wedi'u lleoli y tu allan i'w ffin.
[12] Dynesfeydd Môr Hafren, Bae Ceredigion, Bae Caerfyrddin a'r Morydau, Afonydd Cleddau, Gweunydd Blaencleddau, Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru, Coedydd Gogledd Sir Benfro, Comins Gogledd Orllewin Sir Benfro, Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston, Sir Benfro Forol, Preseli, Afon Teifi, Tyddewi, Gorllewin Cymru Forol, Yerbeston Tops.
[13] Ynys Dewi ac Arfordir Penmaen Dewi, Ynysoedd Sgogwm a Sgomer, Ynys Gwales, Arfordir Castellmartin a Bae Caerfyrddin.
[14] Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion, Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Morydau, Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol.
[15] Gweler adran 1.8 yn y Cynllun hwn: "Pwy sy'n berchen ar y Parc Cenedlaethol?"
[16] (Y Sefydliad Tirwedd a'r Institute of Environment Management and Assessment, 2013, Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment, 3ydd argraffiad).



### 3.2.4 Awyr y nos

Ar sail mapiau awyr dywyll a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru[17], nid oes llygredd golau yn rhannau helaeth o'r Parc Cenedlaethol.

Serch hynny, ceir ffynonellau golau sylweddol (gan gynnwys rhai y tu allan i'r Parc Cenedlaethol), tra bydd golau hefyd yn dod o ffynonellau amaethyddol neu fusnesau unigol mewn ardaloedd sydd fel arall yn rhai tywyll.

Ceir wyth Safle Darganfod Awyr Dywyll yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r safleoedd hyn yn rhai hygyrch, gyda llefydd parcio wrth law, ac maen nhw'n rhoi golygfeydd da o awyr y nos pan na fydd cymylau na lleuad.

### 3.2.5 Treftadaeth y ddaear

Ceir 51 safle Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn y Parc Cenedlaethol, a'r rheini'n gorchuddio tua 40% o forlin y Parc (heb gynnwys Dyfrffordd Aberdaugleddau, sydd ag un safle o'r fath) ynghyd â nifer o ardaloedd mewndirol. Mae nifer o'r safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol o arwyddocâd rhyngwladol. Mae 72% o nodweddion safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol mewn cyflwr "ffafriol / wedi gwella / dim newid".

Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yn ddynodiadau anstatudol a'u bwriad yw cyd-fynd â safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol. Ceir 66 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol posibl yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain mewn lleoliadau arfordirol ac mewn cyflwr ffafriol.

[17]https://www.landuse.co.uk/projects/dark-skies-map-natural-resources-wales/
Map showing light pollution, commissioned by Natural Resources Wales
https://luc.maps.arcgis.com/apps/dashboards/1cd6ba8a1d7d4a62aff635cfcbaf4aec



## 3.3 Cadwraeth: cenhadaeth

**Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, harddwch naturiol a bywyd gwyllt.**

## 3.4 Cadwraeth: canlyniadau

1. Byddwn ni'n gwarchod ac yn gwella ansawdd y dirwedd a'r morlun.
2. Byddwn ni'n gwarchod golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored.
3. Byddwn ni'n lleihau effaith llygredd golau ar fywyd gwyllt ac ar bobl.
4. Byddwn ni'n gwarchod safleoedd treftadaeth y ddaear.
5. Byddwn ni'n gwarchod ac yn gwella iechyd y pridd ac yn gwella storfeydd carbon naturiol.
6. Byddwn ni'n hybu adferiad ecosystemau ar raddfa fawr (y targed 30x30) ac yn gwella cyflwr bywyd gwyllt ar y tir ac yn yr amgylchedd morol (gyda charreg filltir i sicrhau adferiad amlwg erbyn 2050).
7. Byddwn ni'n gwella cysylltedd y dirwedd ar gyfer bywyd gwyllt.
8. Byddwn ni'n sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd sydd o werth mawr i natur.
9. Byddwn ni'n cynnal ac yn cryfhau rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn Sir Benfro.
10. Byddwn ni'n cefnogi amrywiaeth eang o bobl i weithredu dros fyd natur.



## 3.5 Cadwraeth: polisïau a dulliau mesur

| Polisi | Canlyniadau | Monitro |
|---|---|---|
| L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morluniau'r Parc Cenedlaethol. | 1, 2 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig<br>• Y perfformiad o dan bolisi 14 Cynllun Datblygu Lleol 2 Y Dirwedd<br>• Cyflwyno camau rheoli addas ar gyfer datblygiadau gwersylla a meysydd carafanau<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Haen weledol a synhwyraidd LANDMAP |
| L2: Gwarchod a gwella awyr dywyll y nos. | 3 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 9 Cynllun Datblygu Lleol 2 Llygredd Golau<br>• Prosiectau ôl-osod yn y Parc Cenedlaethol<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Haen weledol a synhwyraidd LANDMAP |



| | | |
|---|---|---|
| L3: Gwarchod a gwella treftadaeth y ddaear. | 4,5 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Monitro safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol<br>• Haen ffisegol LANDMAP<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 12 Cynllun Datblygu Lleol 2 Ardaloedd Lleol o Gadwraeth Natur neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cadwraeth, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith |
| L4: Gwarchod a gwella seinweddau naturiol. | 6, 7, 8, 9 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cadwraeth, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Haen weledol a synhwyraidd LANDMAP |



| | | |
|---|---|---|
| E1: Gwarchod a gwella ansawdd, rhychwant a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa fawr. | 6, 7, 8, 9 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol<br>• Monitro cynefinoedd a rhywogaethau<br>• Haen ecolegol LANDMAP<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Adroddiadau Adran 6[18]<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cadwraeth, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith<br>• Y perfformiad o dan bolisi 10 *Cynllun Datblygu Lleol* 2 Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd<br>• Y perfformiad o dan bolisi 11 *Cynllun Datblygu Lleol* 2 Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol<br>• Y perfformiad o dan bolisi 12 *Cynllun Datblygu Lleol* 2 Ardaloedd Cadwraeth Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol |
| E2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth forol. | 6, 8, 9 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol<br>• Monitro cynefinoedd a rhywogaethau |

[18]Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 6: Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau



## 3.6 Cadwraeth: camau gweithredu 2025-2029

Gweler hefyd y ffrydiau gwaith o dan Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol.

**Ffrwd waith: Harddwch naturiol**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| L1/A | Gwarchod amwynder gweledol pwysig y Parc Cenedlaethol rhag datblygiadau, e.e. cynhyrchu ynni a datblygiadau mawr, gan gynnwys yr effeithiau cronnus a'r effeithiau ar y cyd. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyngor Sir Benfro |
| L1/B | Sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effeithiau niweidiol annerbyniol ar y dirwedd a'r morlun, a bod gan ddatblygiadau ddyluniadau da. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Ystad y Goron |
| L1/C | Rheoli effeithiau hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Gweithredwyr safleoedd |
| L1/D | Lleihau effaith weledol y seilwaith presennol, e.e. rhwydweithiau telathrebu a dosbarthu pŵer, er enghraifft drwy osod ceblau o dan y ddaear neu rannu tyrau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cwmnïau cyfleustodau |
| L1/E | Rheoli sbwriel, gan gynnwys sbwriel yn y môr, a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau hyn. | Cyngor Sir Benfro | Cadwch Gymru'n Daclus<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |



Ffrwd waith: Awyr dywyll

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| L2/A | Lleihau llygredd golau o leoliadau domestig, lleoliadau cymunedol, lleoliadau busnes a lleoliadau diwydiannol drwy godi ymwybyddiaeth a chymorth grant. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Prosiect Nos |
| L2/B | Mabwysiadu a hyrwyddo canllawiau cynllunio ynghylch goleuo yn y Parc Cenedlaethol. | Llywodraeth Cymru | Tirweddau dynodedig yng Nghymru Cyfoeth Naturiol Cymru |
| L2/C | Rheoli goleuo yn unol â pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| L2/D | Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o awyr dywyll. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |



### Ffrwd waith: Treftadaeth y ddaear

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| L3/A | Gwarchod a gwella safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhyngwladol. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rheolwyr tir |

### Ffrwd waith: Seinweddau naturiol

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| L4/A | Cyfrannu at roi ar waith Gynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028. | Llywodraeth Cymru | Cyngor Sir Benfro |
| L4/B | Rhannu data monitro sŵn rhwng yr awdurdodau perthnasol. | Cyngor Sir Benfro | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |

### Ffrwd waith: Adfer natur ar y tir

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| E1/A | Datblygu cynllun gweithredu sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn y Parc Cenedlaethol, a hwnnw wedi'i seilio ar ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn ac yn cyfrannu at dargedau statudol cenedlaethol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Partneriaeth Natur Sir Benfro<br><br>Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |



| | | | |
|---|---|---|---|
| E1/B | Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur a phrosiectau rheoli tir ymarferol ym maes cadwraeth er mwyn sicrhau budd i fioamrywiaeth[19]. | Partneriaeth Natur Sir Benfro | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro |
| E1/C | Cefnogi ffermwyr, yn enwedig y sector llaeth, i leihau effeithiau ar bridd a dŵr drwy arferion adferol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Llywodraeth Cymru | Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro |
| E1/D | Cydweithio â thirweddau dynodedig eraill i sicrhau canlyniadau ym maes cadwraeth natur ar raddfa fawr. | Tirweddau Cymru / Landscapes Wales | |
| E1/E | Sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd sydd o werth mawr i natur. | Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Buglife<br><br>Butterfly Conservation<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar<br><br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |



| | | | |
|---|---|---|---|
| E1/F | Rhoi ar waith brosiectau penodol i warchod rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig[20] yn Sir Benfro a llefydd lleol lle ceir byd natur. | Partneriaeth Natur Sir Benfro | Buglife<br>Butterfly Conservation<br>Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| E1/G | Rheoli pathogenau a rhywogaethau estron ymledol a/neu niweidiol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Llywodraeth Cymru | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd [21]<br>Rheolwyr tir<br>Cyngor Sir Benfro |

[19]Ymhlith yr enghreifftiau mae; cydweithio i ddatblygu a rhoi ar waith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; darparu cymorth amaeth-amgylchedd sy'n benodol i'r ardal leol (gan gynnwys cyngor, grantiau cyfalaf, cytundebau rheoli, help gyda phori, y defnydd o wirfoddolwyr, gweirgloddiau, glaswelltir corsiog, coetiroedd lled-naturiol, coed pori, coed yn y dirwedd, ffiniau caeau, gwrychoedd a choridorau nentydd, gan gynnwys safleoedd cadwraeth natur dynodedig a safleoedd eraill o werth mawr i natur).
[20]EE E.e. mursen y De, nodwedd o Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli
[21]Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion, Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Morydau, Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol



| | | | |
|---|---|---|---|
| E1/H | Rheoli a lliniaru'r risgiau o danau gwyllt drwy waith addas i ymwneud â'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth am arferion gorau, a chymorth ymarferol. | Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro | |
| E1/I | Sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cyflawni budd net i fioamrywiaeth. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Datblygwyr |
| E1/J | Rheoli safleoedd sydd o werth gwirioneddol neu werth posibl i fyd natur yn uniongyrchol, drwy brynu neu lesio'r safleoedd hynny, pan fydd yn opsiwn rheoli cost-effeithiol ym maes cadwraeth. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Grwpiau cymunedol |
| E1/K | Lleihau troseddu sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chymryd camau priodol pan fydd yn digwydd. | Dyfed-Powys Police | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| E1/L | Atal ac adfer niwed i nodweddion cadwraeth safleoedd dynodedig. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |



| | | | |
|---|---|---|---|
| E1/M | Cefnogi bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, sy'n amgylcheddol iach, ac sy'n dangos cyfrifoldeb cymdeithasol.. | Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro | Undeb Amaethwyr Cymru<br>Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru<br>Cymdeithas y Pridd |
| E1/N | Gwrthwynebu cynigion sy'n debygol o gael effaith niweidiol sylweddol (naill ai ar eu pennau'u hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar Rwydwaith o Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, oni bai eu bod yn bodloni'r profion cyfreithiol yn y Rheoliadau Cynefinoedd. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| E1/O | Datblygu prosiectau adfer natur sydd hefyd yn helpu i gynyddu amrywiaeth y bobl sy'n gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. | Partneriaeth Natur Sir Benfro | |
| E1/P | Lleihau effeithiau golau ar rywogaethau bregus. | Partneriaeth Natur Sir Benfro | |



## Ffrwd waith: Adfer natur yn yr amgylchedd morol

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| E2/A | Cyflawni'r cynlluniau rheoli ar gyfer Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol morol y Deyrnas Unedig. | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd | |
| E2/B | Rheoli cloddio am abwyd a chasglu rhywogaethau yn y parth rhynglanwol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd |
| E2/C | Gwella cyflwr amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau e.e. o ran safonau ansawdd dŵr. | Y Byrddau Rheoli Maethynnau | Undeb Amaethwyr Cymru<br>Milford Haven Waterway Environmental Surveillance Group<br>Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| E2/D | Adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli. | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd | Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale<br>Sky Ocean Rescue<br>World Wide Fund for Nature |



| | | | |
|---|---|---|---|
| E2/E | Cyflawni amcanion rheoli Parth Cadwraeth Morol Sgomer. | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pwyllgor Cynghori Parth Cadwraeth Morol Sgomer |
| E2/F | Lleihau effeithiau golau ar rywogaethau bregus (e.e. aderyn drycin Manaw). | Partneriaeth Natur Sir Benfro<br>Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd | Perchnogion llongau / siartrwyr |
| E2/G | Rheoli'r modd y mae gweithgareddau hamdden yn aflonyddu ar fywyd gwyllt e.e. drwy godau ymddygiad, cyfyngiadau, codi ymwybyddiaeth a gorfodaeth gyfreithiol. | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd<br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Darparwyr y sector hamdden |
| E2/H | Cynnal a rhoi ar waith gynlluniau morol wrth gefn a gweithdrefnau ymateb. | Cyngor Sir Benfro | Partneriaid sy'n cynllunio ac yn ymateb i argyfyngau |



| | | | |
|---|---|---|---|
| E2/I<br>(see also N4/E) | Lleihau plastigion a microblastigion yn yr amgylchedd ac yn eu tarddiad. | Llywodraeth Cymru | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid yn y diwydiant<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau |
| E2/J | Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a'r amgylchedd arfordirol a morol ehangach yn gynaliadwy. | Llywodraeth Cymru | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd<br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro |



# 4 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol

## 4.1 Cefndir

Un o ddibenion craidd Parciau Cenedlaethol yw helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig.

Mae creu cysylltiad dyfnach â byd natur a threftadaeth yn hollbwysig wrth hybu iechyd a lles pobl, ac wrth sicrhau bod pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn dathlu'r amgylchedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol. Dangosodd y gwaith ymgynghori ar y Cynllun Partneriaeth drafft y cyfraniad y gall partneriaid ei wneud at bresgripsiynu cymdeithasol ac at yr agenda lesiant ehangach yng Nghymru, a hynny'n gysylltiedig â threftadaeth, byd natur a gweithgareddau awyr agored. Mae nifer o'r prif bartneriaid sy'n rhan o gyflawni'r Cynllun hwn yn ymwneud â phlatfform *Hapus* Iechyd Cyhoeddus Cymru[22] ar gyfer hybu lles meddyliol pobl.

Mae'r thema Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol yn ymwneud â galluogi pobl i brofi harddwch, llonyddwch, ac arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol Arfordir Penfro, gan gynnwys y Gymraeg – gan helpu i sicrhau bod y rhinweddau arbennig yn cael eu gwarchod a'u gwella, a'u bod yn hygyrch i bawb. Cydnabyddir bod rhai grwpiau yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio mwynhau, deall a defnyddio'r Parc Cenedlaethol. Mae modd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a phartneriaid wneud cyfraniad pwysig drwy weithio gyda'i gilydd a gyda phobl eraill ar gynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

Mae angen gwaith cynnal a chadw a gofal cyson ar Lwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro a nodweddion seilwaith eraill sy'n helpu i greu mwynhad a dealltwriaeth. Mae'r rhain yn wynebu heriau newydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

[22]https://hapus.wales/



## 4.2 Cyflwr y Parc: Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol

### 4.2.1 Treftadaeth ddiwylliannol

Mae 73% o'r 286 o Henebion Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr ffafriol (data mis Medi 2021). Mae rhai'n wynebu risg o erydu arfordirol.

Ceir bron i 11,000 o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r mwyafrif wedi'u gwarchod yn gyfreithiol. Maen nhw'n wynebu risg yn sgil amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys amaethyddiaeth, gweithgareddau hamdden, twf planhigion, gweithgarwch anifeiliaid, datblygu ac erydiad.

Ceir naw o dirweddau hanesyddol o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Mae pedwar ohonyn nhw'n Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Preseli, Penrhyn Dewi ac Ynys Dewi, Ynys Sgomer, a Dyfrffordd Aberdaugleddau). Mae pump ohonyn nhw'n Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (Trefdraeth a Charningli, Pen Caer, Cwningar Ystagbwll, rhan o waelod Dyffryn Teifi, a Maenorbŷr).

Mae dros 1,200 o Adeiladau Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol. Mae 33 ohonyn nhw yn rhai Gradd I (o ddiddordeb eithriadol) a 76 yn rhai Gradd II* (adeiladau sy'n hynod o bwysig, ac yn fwy nag adeiladau o ddiddordeb arbennig). Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw mewn cyflwr da, ond credir bod 5.5% yn wynebu risg.

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn Ardaloedd Cadwraeth. Ceir 15 Ardal Gadwraeth yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd: Aber-bach, Angle, Caerfarchell,



Cei Cresswell, Dinbych-y-pysgod, Maenorbŷr, Portclew, Porthgain, Saundersfoot, Solfach, Trefdraeth a Pharrog, Trefin, Tyddewi, ac Ynys Bŷr.

Ceir 15 o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yn y Parc Cenedlaethol.

Mae cymeriad adeiladau lleol yn cyfrannu at hynodrwydd y dreftadaeth adeiledig yn y Parc Cenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae'n debygol bod esgeulustod a diffyg atgyweirio yn effeithio ar hyn.

### 4.2.2 Ieithoedd a thafodieithoedd

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol drwy'r sir. Yn y Parc Cenedlaethol, gallai 23.3% o bobl siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021 – gostyngiad ers Cyfrifiad 2011.

Mae rhannau o Sir Benfro yn enwog fel gwlad y "Wês, wês", a hynny oherwydd y dafodiaith sy'n cael ei siarad yno. Mae tafodiaith unigryw Sir Benfro i'w chlywed yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol.

Mae blas Eingl-Normanaidd cryf ar dafodiaith de Sir Benfro, o gyfnod pan ddisodlwyd y Gymraeg yn gynyddol gan y Saesneg a siaradai ymsefydlwyr o Orllewin Lloegr.

### 4.2.3 Cyfleoedd i fwynhau'r rhinweddau arbennig

Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 300km milltir o hyd, gyda 30km arall o lwybrau amgen sy'n cael eu rheoli yn croesi'r llanw a meysydd tanio milwrol. Mae'r llwybr yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n 1,400km o hyd.

Arfordir Penfro yw un o'r prif resymau pam ddynodwyd yr ardal yn Barc Cenedlaethol, ac mae'n cynnig amrywiaeth di-ben-draw o brofiadau i ddefnyddwyr, gan gynnwys rhannau sy'n cael eu cadw'n fwriadol yn fwy gwyllt ac anghysbell. Y golygfeydd arfordirol, y traethau a'r cyfleoedd hamdden mewndirol yw sylfaen cynnyrch twristiaeth Sir Benfro.



Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rheoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a hynny'n unol â Strategaeth Llwybr Arfordir Penfro. Mae'r Llwybr Cenedlaethol felly'n rhan gwbl ganolog o gynnig twristiaeth Sir Benfro.

I gyd-fynd â Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, ceir 1,000+ km o hawliau tramwy mewndirol, gan gynnwys 180km o lwybrau ceffylau, sydd bron i gyd yn croesi tir preifat. Yn ardal y Parc Cenedlaethol, mae'r rhain yn cael eu rheoli gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol o dan gytundeb dirprwyo gyda Chyngor Sir Benfro. Tra bo'r rhwydwaith agored yn tua 87% o'r cyfanswm, mae'n ateb y rhan fwyaf o'r galw gan ddefnyddwyr.

Ceir tua 6,600 hectar o dir hygyrch.

Ceir dros 50 o draethau y gellir eu hadnabod yn rhwydd yn y Parc Cenedlaethol. Yn y rhan fwyaf ohonyn nhw, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lesio'r blaendraeth gan Ystad y Goron, gyda Chyngor Sir Benfro yn lesio'r traethau i'r dwyrain o Giltar Point.

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol tua 40 o feysydd parcio, a dim ond 14 o'r rhain sy'n codi tâl (rhwng mis Mawrth a mis Hydref). Ceir tua 9,400 o lefydd i barcio ceir yn ardaloedd arfordirol y Parc Cenedlaethol . Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rheoli tua 30% o'r llefydd parcio hyn, gyda Chyngor Sir Benfro yn rheoli 26%, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn rheoli 13%, a darparwyr eraill yn rheoli'r gweddill (31%).

Ceir cyfleoedd rhagorol ar gyfer nofio mewn dŵr agored, syrffio, caiacio a chanŵio, a chwaraeon gwynt, ynghyd â chyfleoedd i fwynhau'r dŵr mewn ffyrdd eraill wrth grwydro'r arfordir a darganfod bywyd gwyllt. Mae Arfordir

[23]Yn cynnwys meysydd parcio ffurfiol, meysydd parcio anffurfiol, cilfannau, a llefydd parcio heb gyfyngiadau ar strydoedd mewn ardaloedd yn agos at yr arfordir a chyrchfannau ymwelwyr poblogaidd (ffigurau 2023).



Penfro'n enwog yn fyd-eang am ddringo, ac mae ganddo'i ddulliau a'i draddodiadau'i hun yn hynny o beth. Mae'r cyfleoedd hyn o fudd i iechyd, lles a datblygiad personol pobl, ac maen nhw hefyd yn dod ag incwm i'r ardal.

Mae'r llain arfordirol, Daugleddau, afon Cleddau Wen ac afon Cleddau Ddu yn creu cyfleoedd hamdden o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau partner yn gweithio i hyrwyddo a rheoli gweithgareddau dŵr, ond gan ddilyn polisïau rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, y dirwedd a gwarchod treftadaeth ar yr un pryd.

Er bod cyfran uwch o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn Sir Benfro nag yn unman arall yng Nghymru, nid yw dau draean y trigolion yn ddigon egnïol o hyd. Drwy Gymru, ymhlith y rhwystrau i gymryd rhan mae diffyg amser, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol, tlodi trafnidiaeth a chyfleusterau annigonol. Mae rhwystrau pellach yn wynebu pobl anabl, pobl sydd â phroblemau iechyd, pobl o wahanol grwpiau oedran, pobl o grwpiau'r mwyafrif byd-eang, grwpiau sydd ar ymylon cymdeithas, a grwpiau ffydd.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid wedi bod yn gweithio i wneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch a chynhwysol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys creu llwybrau cerdded hygyrch, creu llefydd hygyrch sy'n rhoi golygfeydd, darparu cadeiriau olwyn ar draethau, a darparu offer sy'n addas i bob math o dir. Mae'r ffaith bod cyllidebau sefydliadau partner o dan bwysau yn golygu bod angen cydweithio er mwyn datblygu atebion creadigol a chynaliadwy yn y maes hwn.

Pan fydd gweithgareddau hamdden yn effeithio'n negyddol ar rinweddau arbennig, cymunedau a defnyddwyr eraill y Parc Cenedlaethol, mae tuedd i'r effeithiau hynny fod yn



rhai sy'n perthyn i lefydd ac amseroedd penodol. Er y gallan nhw greu heriau, mae modd eu datrys hefyd, er enghraifft drwy gytundebau gwirfoddol a chodau ymddygiad ar gyfer grwpiau o ddefnyddwyr.

Bydd ffactorau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r economi'n parhau i ddylanwadu ar dymhorau ymwelwyr ac ar y galw. Bydd gaeafau gwlypach a mwy o stormydd yn gwneud gwyliau yn y Deyrnas Unedig yn llai atyniadol y tu allan i'r tymor traddodiadol, ond gallai hafau cynhesach annog mwy o drigolion y Deyrnas Unedig i fynd ar eu gwyliau yn y gwledydd hyn, gan arwain at dymor mwy diffiniedig ac at fwy o bwysau yn sgil gweithgareddau hamdden.

Gallai'r newid yn yr hinsawdd ddylanwadu ar brofiad hamdden pobl yn y Parc Cenedlaethol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- newidiadau i'r dirwedd ac i fywyd gwyllt (e.e. colli cynefinoedd, colli rhywogaethau, newid defnydd tir)
- rhai traethau'n dod yn fwy mewndirol, a rhai eraill yn cael eu colli; gwasgfa arfordirol
- llwybrau arfordirol a llwybrau eraill yn cael eu haddasu'n fwy aml/yn fwy sylweddol yn sgil erydu
- effeithiau ar ansawdd hawliau tramwy (erydu, tirlithriadau, llifogydd)
- effeithiau ar ansawdd dŵr (mwy o ddŵr ffo o'r tir, gorlifoedd storm yn digwydd yn amlach)

### 4.2.4 Deall y rhinweddau arbennig

Ar y cyfan, mae gan bobl ymwybyddiaeth dda o ddibenion parciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig, ac mae parciau cenedlaethol yn bwysig iddyn nhw. Serch hynny, bydd pobl yn ei chael hi'n anodd enwi parciau cenedlaethol penodol, ac mae dryswch ynghylch pwy sy'n berchen arnyn nhw a phwy sy'n eu rheoli.



Er bod ymwybyddiaeth amgylcheddol gyffredinol yn gwella, mae gwybodaeth benodol am fioamrywiaeth, ac o bosibl am rinweddau arbennig eraill parciau cenedlaethol, yn gymharol wael. Mae'n bosibl y bydd hynny'n gwaethygu wrth i fywyd gwyllt ei hun ddirywio ac wrth i lai o ymwybyddiaeth gael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall.

### 4.2.5 Mynediad anghyfartal a buddion i iechyd y cyhoedd

Yn hanesyddol, nid yw'r grwpiau a'r cynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol wedi adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth cymdeithas yn y Deyrnas Unedig. Mae pobl leol hefyd yn wynebu rhwystrau rhag cael eu cynnwys.

Waeth sut y maen nhw'n perfformio mewn lleoliadau dysgu confensiynol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl ifanc yn cael budd mawr o ddysgu yn yr awyr agored ac o waith ymarferol, a hynny o ran deilliannau dysgu, iechyd a lles, a chyfrifoldeb personol a chymdeithasol.

Mae'n ymddangos bod plant a gweddill byd natur yn cael eu gwahanu'n raddol. Mae hyn wedi cyfrannu at broblemau pwysau yn ystod plentyndod, at gynnydd mewn asthma, ac at ddiffyg ffitrwydd cardiofasgwlaidd. Mae diffyg cysylltiad â byd natur hefyd yn rhannol gysylltiedig â chynnydd mewn problemau ymddygiad a phroblemau emosiynol. Ar y llaw arall, gall dod i gyswllt â'r amgylchedd naturiol, yn enwedig drwy weithgareddau hamdden egnïol a dysgu yn yr awyr agored, leihau straen ac ymddygiad ymosodol, gwella gallu pobl i ganolbwyntio, a gwella hwyliau a hunan-barch pobl.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ased gwych y gellir ei ddefnyddio i hybu lles meddyliol a lles corfforol ill dau. Gall cyfleoedd a phrosiectau gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol



a phartneriaid yn y Parc Cenedlaethol helpu pobl i brofi rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a'r pum cam at les meddyliol:

- Cysylltu
- Bod yn egnïol
- Parhau i ddysgu
- Rhoi
- Cymryd sylw

Mae angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid barhau i arloesi wrth gyfathrebu ac ymwneud â phobl, gan weithio i gael gwared ar y rhwystrau sy'n dal i atal pobl rhag mwynhau'r Parc Cenedlaethol a dysgu amdano. Mae angen parhau hefyd i gyrraedd pobl sy'n byw o fewn ffiniau neu'n agos at ffiniau'r Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r rheini y tu hwnt iddo.

Er y dylai pawb allu mwynhau'r Parc Cenedlaethol a dysgu amdano, bydd cynulleidfaoedd penodol yn parhau i fodoli. Mae pobl ifanc – y genhedlaeth nesaf – yn gynulleidfa hollbwysig. Cynulleidfaoedd hollbwysig eraill yw'r bobl sy'n byw ac yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol, a'r cymunedau sy'n gallu helpu i gyflawni amcanion rheoli penodol.

## 4.3 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: cenhadaeth

- **Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hybu'r Gymraeg**
- **Gwella hygyrchedd y Parc Cenedlaethol mewn ffordd deg a helpu pawb i'w fwynhau, i'w ddeall, ac i gael buddion iechyd drwy ei rinweddau arbennig**



## 4.4 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: canlyniadau

1. Byddwn ni'n gwarchod ac yn adfer asedau hanesyddol dynodedig a rhai sydd heb eu dynodi.
2. Bydd ardal y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at y targed i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050[24].
3. Byddwn ni'n cael gwared ar y rhwystrau i gyfleoedd hamdden a lles yn yr awyr agored, ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gynulleidfaoedd mwy amrywiol, e.e. pobl sydd ag anableddau gweladwy neu gudd, plant a phobl ifanc o ardaloedd o amddifadedd, pobl o'r mwyafrif byd-eang, grwpiau ffydd, a grwpiau sydd ar ymylon cymdeithas.
4. Byddwn ni'n darparu prosiectau a chyfleoedd sy'n gwreiddio'r 5 cam at les yn eu dulliau o weithio, gan gyfrannu at y Cerrig Milltir Cenedlaethol ar gyfer lles meddyliol, gwirfoddoli ac ymddygiadau sy'n arwain at ffyrdd iach o fyw.
5. Bydd pob traeth dynodedig sydd â dŵr ymdrochi yn ennill statws "Rhagorol". Bydd gostyngiad yn y niwed a gaiff ei achosi gan weithgareddau hamdden ac yn y niwed amgylcheddol a gaiff ei achosi wrth ollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm.
6. Bydd mwy o bobl ifanc yn darganfod ac yn mwynhau'r Parc Cenedlaethol.



[24]Welsh Government "Cymraeg 2050: Our plan for 2021 to 2026" https://www.gov.wales/cymraeg-2050-our-plan-2021-2026

## 4.5 Cultural Heritage and Connection: policies and measures

| Polisi | Canlyniadau | Monitro |
|---|---|---|
| H1: Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Henebion Cofrestredig, adeiladau o ddiddordeb, asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi, a'u lleoliadau. | 1 | Cadw<br>• Nifer a chyflwr Henebion Cofrestredig<br>• Nifer a chyflwr Adeiladau Rhestredig<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig<br>• Data'r prosiect i ddiogelu Henebion Hynafol<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Haen ddiwylliannol LANDMAP |
| H2: Hyrwyddo'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd. | 2 | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>• Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 13 Cynllun Datblygu Lleol 2 Datblygiad mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg |



| Polisi | Canlyniadau | Monitro |
|---|---|---|
| W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i bawb wneud gweithgareddau awyr agored cynaliadwy. | 3 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Data Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Data Hawliau Tramwy mewndirol<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cysylltu, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o’r effaith |
| W2: Darparu a hyrwyddo profiadau ysbrydoledig ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, lles a datblygu’n bersonol, a hynny i bawb. | 4 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cysylltu, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol am y pedair thema, ac astudiaethau achos o’r effaith<br><br>Llywodraeth Cymru<br>• Data cerrig milltir cenedlaethol, e.e. Canran y bobl sy’n gwirfoddoli, Sgôr lles meddyliol cymedrig |



## 4.6 Treftadaeth a Chysylltiadau Diwylliannol: camau gweithredu 2025-2029

**Ffrwd waith: Gwarchod a gwella asedau treftadaeth**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
| --- | --- | --- | --- |
| H1/A | Gwella ymwybyddiaeth a mwynhad y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys tirweddau, adeiladau a chofebion; cael gwared ar rwystrau i fynediad; a hyrwyddo cyfleoedd i gynulleidfaoedd mwy | Cadw<br><br>Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Ymwelwch â Sir Benfro |
| H1/B | Gwarchod a gwella Adeiladau Rhestredig drwy wella ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau cynllunio cyn-ymgeisio. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cadw<br><br>Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru |
| H1/C | Rheoli datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth yn unol â Chynlluniau Rheoli Cadwraeth a gofynion Erthygl 4.<br><br>Cynnal arolygon o aneddiadau a dynodi Ardaloedd eraill yn ôl y galw. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |



| | | | |
|---|---|---|---|
| H1/D | Ymwneud â chymunedau a gwirfoddolwyr a'u helpu i fonitro a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru |
| H1/E | Sefydlogi a gwella henebion, gan gynnwys y rheini sydd mewn cyflwr anffafriol ac yn wynebu risg. Cofnodi safleoedd sy'n wynebu risg yn sgil erydu arfordirol. | Cadw<br>Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| H1/F | Gwarchod a gwella ffiniau caeau, gyda phwyslais penodol ar ffiniau mewn tirweddau hanesyddol cofrestredig a / neu ffiniau sy'n berthnasol i gysylltedd er budd bioamrywiaeth. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Rhwydwaith Ffermio Cynaliadwy Sir Benfro |



| | | | |
|---|---|---|---|
| H1/G | Rhoi ar waith bolisïau treftadaeth a chanllawiau cysylltiedig *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan gynnwys adolygiad o Orchmynion Cadw Coed. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru |
| H1/H | Hybu ymchwil a pholisïau sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Partneriaid ymchwil ac addysg |
| H1/I | Lleihau troseddu sy'n ymwneud â threftadaeth a chymryd camau priodol pan fydd yn digwydd. | Dyfed-Powys Police<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cadw<br>Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru |



| | | | |
|---|---|---|---|
| H1/J | Dathlu a gwarchod elfennau unigryw lleol yn yr amgylchedd adeiledig. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| H1/K | Gwarchod a hyrwyddo enwau llefydd, e.e. enwau caeau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| H1/L | Creu rhestr o asedau hanesyddol lleol nad ydyn nhw'n cael eu gwarchod yn statudol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru |



**Ffrwd waith: Y Gymraeg a thafodieithoedd lleol, diwylliant a chreadigrwydd**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| H2/A | Rhannu a dathlu'r dirwedd, treftadaeth ddiwylliannol, hanes naturiol a'r celfyddydau gyda mwy o gynulleidfaoedd amrywiol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Amgueddfa Cymru<br>Cadw<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Cyngor Sir Benfro |
| H2/B | Rhoi ar waith bolisïau treftadaeth *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, e.e. Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd Sensitif o ran y Gymraeg | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| H2/C | Chwilio am ffyrdd newydd o hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol fel rhan o weithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| H2/D | Rhoi canllawiau am sut i fwynhau henebion a ystyrir yn gysegredig a'u lleoliadau mewn ffordd sympathetig. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cadw<br>Grwpiau ffydd |



**Ffrwd waith: Mwynhau'r Parc Cenedlaethol**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| W1/A | Darparu rhaglenni a phrosiectau sy'n hyrwyddo creu arfordir hygyrch, gan roi profiadau mwy cynhwysol yn y Parc Cenedlaethol a helpu i gael gwared ar rwystrau i bobl sydd ag anghenion penodol[25]. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Tirweddau Cymru | Y Fforwm Hygyrchedd Lleol<br><br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br><br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| W1/B | Rheoli pwysau hamdden a phroblemau gyda chapasiti cymunedau a safleoedd e.e. y rheini sy'n deillio o wersylla anawdurdodedig a thagfeydd[26]. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br><br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| W1/C | Rheoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru, i roi profiadau amrywiol, a'i hyrwyddo i gynulleidfaoedd newydd. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Y Fforwm Hygyrchedd Lleol |

[25]E.e. Y cynllun Get Outoors, a dilyn y strategaeth hygyrchedd yn adroddiad Dichonoldeb Meysydd Parcio Arfordirol Sir Benfro 2024.
[26]Ymhlith y safleoedd mae Abereiddi, Abermawr, Barafundle a Chei Ystagbwll, Cwm yr Eglwys, Freshwater East, Freshwater West, Martin's Haven, Porthgain, Pwllgwaelod, St Justinian, Strumble a Whitesands.



| | | | |
|---|---|---|---|
| W1/D | Rhoi ar waith y Cynllun Gwella *Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018-2028..* | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Y Fforwm Hygyrchedd Lleol |
| W1/E | Cydweithio i sicrhau bod yr holl draethau dynodedig sydd â dŵr ymdrochi'n cael statws "Rhagorol". | Cyfoeth Naturiol Cymru | Dŵr Cymru / Welsh Water<br>Cyngor Sir Benfro |
| W1/F | Rheoli Dyfrffordd Aberdaugleddau yn unol ag amcanion hamdden ac is-ddeddfwriaeth berthnasol. | Porthladd Aberdaugleddau | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| W1/G | Helpu perchnogion cŵn / cerddwyr a chŵn i fwynhau'r Parc heb achosi risg iddyn nhw'u hunain neu ymwelwyr eraill, anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Cyngor Sir Benfro |



| | | | |
|---|---|---|---|
| W1/H | Hyrwyddo cynlluniau diogelwch dŵr, e.e. Parchwch y Dŵr | Sefydliad Cenedlaethol y Badau Achub | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyngor Sir |
| W1/I | Gweithio gyda busnesau i gynyddu'u defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i drigolion ac ymwelwyr. | Ymwelwch â Sir Benfro | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyngor Sir Benfro |
| W1/J (gweler hefyd N4/C) | Lleihau'n sylweddol y niwed amgylcheddol o ollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm, gan gynnwys gweithio o fewn fframwaith Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Afonydd Cleddau a Sir Benfro. | Dŵr Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | |



**Ffrwd waith: Deall a hyrwyddo buddion y Parc Cenedlaethol i iechyd pobl**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| W2/A | Darparu cyfleoedd hamdden a dysgu egnïol yn yr awyr agored ac ym meysydd yr amgylchedd, treftadaeth a'r celfyddydau i bobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys prosiectau sy'n targedu'r rheini o ardaloedd o amddifadedd neu'r rheini sy'n wynebu anghydraddoldebau, e.e. Y 1,000 Diwrnod Cyntaf. | Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyngor Sir Benfro<br>Tirweddau Cymru |
| W2/B | Darparu rhaglenni sy'n helpu pobl i brofi'r 5 Ffordd at Les yn y Parc Cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar bresgripsiynu cymdeithasol sy'n seiliedig ar fyd natur a threftadaeth, e.e. rhaglenni cerdded, cynlluniau iechyd meddwl, a helpu'r bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag manteisio ar fuddion iechyd y Parc Cenedlaethol, e.e. Gwreiddiau i Adferiad. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Mind<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Tirweddau Cymru |



| | | | |
|---|---|---|---|
| W2/C | Cefnogi ac ymwneud â phlatfform Hapus Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo'r cyfraniad y gall treftadaeth, byd natur a chyfleoedd awyr agored yn y Parc Cenedlaethol ei wneud at hybu lles pobl. | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Amgueddfa Cymru<br>Cadw<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| W2/D | Cynnig cyfleodd i wirfoddoli / ym maes gwyddoniaeth y dinesydd a chyfleoedd hyfforddiant ffurfiol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |



# 5 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

## 5.1 Cefndir

Gallai'r hinsawdd effeithio ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Yn eu plith mae newid arfordirol, erydu, llifogydd a thanau gwyllt. Gallai'r rhain beryglu pobl, eiddo, treftadaeth a bywyd gwyllt. Mae ymateb i'r newid yn yr hinsawdd felly'n un o themâu cyffredinol y Cynllun hwn.

Mae ecosystemau arfordirol a mewndirol y Parc Cenedlaethol yn rhoi gwasanaethau ecosystemau gwerthfawr, gan gynnwys dŵr glân, storio carbon ac ailgylchu maethynnau. Mae gwasanaethau ecosystemau'n hollbwysig i gymunedau lleol, i'r economi ac i weithrediad ehangach yr amgylchedd.

Gall y thema Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol gyfrannu'n sylweddol at nodau llesiant Llywodraeth Cymru a helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur rhyngberthynol, a hynny mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, mae modd lleihau risgiau llifogydd drwy warchod gwlyptiroedd a gorlifdiroedd, gwella'r modd y mae carbon yn cael ei atafaelu drwy adfer coetiroedd a rheoli tir yn gynaliadwy, a gwella cysylltedd a gwydnwch cynefinoedd.

Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 y Parc Cenedlaethol yn cydnabod y bydd angen helpu cymunedau arfordirol i baratoi at newid arfordirol ac addasu i hynny. Y newid yn yr hinsawdd a'r codiad yn lefel yn môr sy'n achosi'r newid hwn.

Wrth i'r Parc Cenedlaethol symud at economi carbon isel, mae'n bwysig bod y dull o weithio yn hyn o beth yn deg ac yn gynhwysol, a'i fod yn hybu pontio teg.



## 5.2 Cyflwr y Parc: Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

### 5.2.1 Rhagolygon yr hinsawdd

Mae disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd effeithio'n drwm ar Gymru, gan arwain at dymheredd cynhesach, patrymau dyddodi gwahanol, a mwy o dywydd eithafol.

*Rhagolygon yr hinsawdd: Cymru*

| | |
|---|---|
| Hafau cynhesach, sychach | Erbyn y 2050au, mae disgwyl i Gymru brofi cynnydd yn y tymheredd blynyddol cyfartalog o tua 1.2°C o sylfaen 1981–2000. Mae disgwyl i'r duedd hon barhau, gyda'r tymheredd yn cynyddu rhwng 1.3°C a 2.3°C erbyn y 2080au. Mae disgwyl i lawiad yn yr haf ostwng tua 15% erbyn y 2050au a rhwng 18% a 26% erbyn y 2080au. |
| Gaeafau gwlypach | Mae disgwyl i lawiad yn y gaeaf gynyddu tua 6% erbyn y 2050au o sylfaen 1981-2000. |
| Stormydd gaeaf mwy difrifol | Pan fydd tymheredd y môr y gynhesach, bydd hynny'n rhoi mwy o ynni i systemau stormydd, gan arwain at stormydd mwy grymus gyda gwyntoedd cryfach, ymchwyddiadau storm dilynol, a glawiad mwy dwys. Gall stormydd, yn enwedig y rheini sy'n dod law yn llaw â llanw uchel, gyflymu erydu arfordirol yn sylweddol ac arwain at ymchwyddiadau storm mawr. |



| | |
|---|---|
| Tonnau gwres a sychder | Mae disgwyl i amlder a dwyster tonnau gwres gynyddu, gyda mwy o ddiwrnodau dros 40°C yn yr haf. Gall hyn, law yn llaw â'r tanwydd sydd ar gael, gynyddu'r risg o danau gwyllt. |
| Llifogydd ac ymchwyddiadau stormydd | Mae disgwyl cynnydd yn amlder a difrifoldeb llifogydd, a hynny oherwydd y glawiad uwch a'r codiad yn lefel y môr. |

### 5.2.2 Rhagolygon lefel y môr

Mae Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018[27] yn rhoi amcangyfrifon estynedig ar gyfer y codiad yn lefel y môr tan 2300. Mewn senario lle ceir allyriadau nwyon tŷ gwydr uchel (Llwybr Crynoadau Cynrychioladol 8.5), gallai lefelau cymedrig byd-eang y môr godi'n sylweddol erbyn 2300. Mae disgwyl i lefelau'r môr o amgylch Cymru godi rhwng 22cm a 28cm erbyn y 2050au a thua 43cm i 76cm erbyn y 2080au, ar sail senarios yng Nghaerdydd.

Gallai goblygiadau posibl codiad yn lefel y môr gynnwys:

- Gwasgfa arfordirol a cholli tir arfordirol, gyda thraethau, ffyrdd, cartrefi a busnesau'n wynebu risg.
- Llifogydd mewn ardaloedd isel, e.e. yn Niwgwl, rhannau o'r A4319 a'r B4318 a'r rheilffordd rhwng Dinbych-y-pysgod a Phenalun.
- Llifogydd o'r môr mewn morydau ac ymlediad heli i ddŵr daear, llynnoedd ac afonydd, gan arwain at sefyllfa lle bydd amryw o rywogaethau'n colli'u cynefinoedd, a lle bydd cyfleoedd newydd i rai eraill.



Mae dau Gynllun Rheoli Traethlin yn berthnasol yn Arfordir Penfro. Yn y rhain ceir polisïau ar gyfer rheoli'r risgiau i bobl, i ddatblygiadau ac i'r amgylcheddau hanesyddol a naturiol yn sgil prosesau arfordirol. Mae'r prosesau arfordirol dan sylw'n cynnwys patrymau'r llanw, uchder tonnau, cyfeiriad tonnau a symudiad y traeth a deunyddiau ar wely'r môr.

Yn achos cynlluniau rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol sy'n para y tu hwnt i 2125, cyngor Llywodraeth Cymru yw y dylid defnyddio'r rhagolwg o'r codiad yn lefel y môr a geir yn Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 ar gyfer 2300[28].

### 5.2.3 Llifogydd

Mae'r risg o lifogydd yn y Parc Cenedlaethol wedi'i gyfyngu gan mwyaf i ddyffrynnoedd afonydd ac ardaloedd arfordirol isel penodol. Mae data a mapiau am risg llifogydd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'r rhain yn cymryd y newid yn yr hinsawdd i ystyriaeth.

Yn 2023, roedd tua 6% o'r cyfeiriadau (preswyl, masnachol a diwydiannol) yn y Parc Cenedlaethol mewn ardaloedd sy'n wynebu risg o lifogydd o afonydd neu'r môr yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae 1% arall o gyfeiriadau mewn ardaloedd sy'n wynebu risg o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychan.

### 5.2.4 Ansawdd dŵr ymdrochi

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu ansawdd y dŵr ymdrochi mewn 29 o leoliadau o amgylch Arfordir Penfro rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i greu sgôr / dosbarthiad blynyddol, a hynny wedi'i seilio'n bennaf ar grynodiadau y colifformau ysgarthol yn y dŵr. Yn 2024, rhoddwyd 27 o

[27]Gweler hefyd: UK Climate Projections: Headline Findings, Y Swyddfa Dywydd, Awst 2022
[28]Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2022



draethau yn y dosbarth 'Rhagorol' – y nifer uchaf erioed. Roedd Amroth yn y dosbarth 'Da' a Wisemans Bridge yn y dosbarth 'Digonol.'[29]

Mae risg wastad y gall llygredd, gan amlaf o garthffosiaeth neu ffynonellau amaethyddol, effeithio ar ansawdd dŵr mewn amgylchiadau penodol.

Mae'r holl garthffosiaeth sy'n cael ei gollwng yn sgil gorlif storm yn achosi cryn bryder yng Nghymru. Yn 2023, cafwyd cyfanswm o 115,525 o achosion o ollwng drwy Gymru gyfan, gyda charthffosiaeth heb ei thrin yn gollwng yn sgil gorlif storm am dros filiwn o oriau (yn ôl data a gasglwyd gan The Rivers Trust).

### 5.2.5 Ansawdd cyrff dŵr mewndirol ac arfordirol

Mae ansawdd y dŵr yn nyfroedd y Parc Cenedlaethol (yn fewndirol ac ar y glannau) yn amrywiol, gyda nifer o broblemau acíwt a chronig yn effeithio ar hyn.

Ymhlith y problemau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr mae llygredd gwasgaredig, llygredd o darddle penodol, addasu cyrsiau dŵr yn ffisegol, a rhywogaethau estron ymledol. Mae effaith gollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm yn achosi cryn bryder yng Nghymru.

Ceir tri ar hugain o gyrff dŵr afonol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. O blith y rhain, mae gan 14 statws cymedrol, 7 statws da, a 2 statws gwael[30].

Mae gan y 5 corff dŵr rhyngbarthol[31] (afon Nyfer, afon Teifi, afon Solfach, afon Gwaun a rhan fewnol y Ddau Gleddau) statws cymedrol.

Mae gan 1 corff dŵr arfordirol statws gwael (Morlyn Pickeridge), mae gan 1 statws cymedrol (rhan allanol y Ddau



Gleddau) ac mae gan 3 statws da (De Sir Benfro, Ynys Gwales a'r Smalls, a De Bae Ceredigion).

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gorgyffwrdd yn helaeth â dau gorff dŵr ar y tir (1 â statws da, ac 1 â statws gwael), er bod mymryn o orgyffwrdd â 2 gorff dŵr arall ar y tir (sydd ill dau â statws gwael).

Mae afon Cleddau Wen, afon Cleddau Ddu ac afon Teifi yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Maen nhw hefyd yn cael eu hasesu i weld a ydyn nhw'n cydymffurfio â thargedau newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 i leihau crynodiad ffosfforws[32]. Nid ydyn nhw'n llwyddo i gyrraedd y targedau llymach hyn ar gyfer ffosfforws. Y prif bethau sy'n achosi i ffosfforws gyrraedd afonydd yw dŵr ffo amaethyddol yn sgil defnyddio gwrtaith, tail ac erydu pridd, gollwng dŵr gwastraff, a dŵr ffo yn dilyn stormydd. Gall lefelau uchel o ffosfforws arwain at ordyfiant algâu ac at dreulio ocsigen, sy'n achosi niwed i ecosystemau dyfrol. Mae i hyn oblygiadau sylweddol i unrhyw ddatblygiadau newydd arfaethedig yn y dalgylch[33].

Pan gynhaliwyd asesiadau cydymffurfio pellach ym mis Ionawr 2024, a oedd yn cynnwys edrych ar ocsigen tawdd a chyfanswm yr amonia a'r amonia anïoneiddedig, dangoswyd bod afonydd Cleddau a Theifi ymhlith y rheini a fethodd y mwyaf o dargedau ansawdd dŵr eraill. Mae ansawdd dŵr yn effeithio ar wydnwch ecolegol cyffredinol, ar fioamrywiaeth, ar ddarpariaeth dŵr yfed ac ar weithgareddau hamdden.

Mae Byrddau Rheoli Maethynnau wedi'u sefydlu ar gyfer dalgylchoedd afonydd Teifi, Cleddau a Thywi. Mae'r rhain yn gweithio mewn ffordd gydlynol ac yn trefnu ac yn galluogi darparu atebion hirdymor ar gyfer dalgylchoedd cyfan. Y nod yw mynd i'r afael a phroblem ffosfforws gormodol



mewn afonydd, sy'n cael ei greu gan weithgarwch sy'n mynd rhagddo eisoes a chan ddefnydd tir yn y dalgylch ehangach. Mae'r byrddau hefyd yn ceisio cyflwyno camau sy'n creu buddion ehangach a gostyngiadau net drwy'r dalgylch.

Nid oes targedau newydd wedi'u cyflwyno eto i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Pe bai targedau ansawdd dŵr morol yn cael eu cyflwyno, disgwylir y gellid creu Bwrdd Rheoli Maethynnau Morol ar gyfer ardaloedd morol.

### 5.2.6 Adnoddau dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu defnyddio'n iawn yng Nghymru ac am sicrhau bod digon o ddŵr ar gyfer yr holl anghenion, gan gynnwys anghenion amgylcheddol. Caiff hyn ei gyflawni drwy reoli sut mae dŵr yn cael ei echdynnu o adnoddau dŵr wyneb a ddŵr daear, drwy fonitro'r amgylchedd, a thrwy weithio'n agos gyda'r diwydiant dŵr ac echdynwyr eraill i reoli adnoddau.

Mae manylion y dŵr sydd ar gael ar gyfer trwyddedu i'w gweld yn Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae llifoedd afonydd yn newid yn naturiol yn ystod y flwyddyn, a'r amcan yw gwarchod yr amrywioldeb hwn yn y llifoedd. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio pedwar llif gwahanol, er mwyn rhoi darlun realistig o'r adnoddau presennol sydd ar gael mewn corff dŵr (uned dŵr wyneb yn yr is-ddalgylch neu uned dŵr daear).[34]

Mae'r fframwaith cyfreithiol yn gwarchod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn llym iawn. Mae safleoedd Ramsar a Safleoedd o



Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd o bwysigrwydd amgylcheddol mawr. Rhaid i bob cais am drwydded newydd ger neu o fewn y safleoedd hyn gael ei asesu o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i weld a fydd effeithiau posibl ar nodweddion safleoedd, ar eu pennau'u hunain neu ar y cyd â thrwyddedau eraill. Mae Adolygiad o Ganiatadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi arwain at newid rhai trwyddedau, ac mae gan afon Cleddau Wen ac afon Cleddau Ddu bellach statws sy'n datgan nad oes 'dim dŵr ar gael' (yn hytrach na'u bod wedi'u 'gor-drwyddedu').

Yn sgil Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017, cafwyd gwared ar y rhan fwyaf o'r eithriadau ar gyfer dŵr daear wrth reoli trwyddedu. Mae'r trefniadau trwyddedu trosiannol yn berthnasol i dynnu dŵr perthnasol yn Sir Benfro.

### 5.2.7 Ansawdd aer

Mae amcanion sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer ac sy'n berthnasol i reoli ansawdd aer yng Nghymru i'w cael yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd). Mae gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ansawdd yr aer bob tair blynedd, gydag adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae ardal y Parc Cenedlaethol wedi'i chynnwys yn Asesiadau Diweddaru a Sgrinio Ansawdd Aer Cyngor Sir Benfro. Mae amcanion sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn berthnasol i bensen, 1,3 bwtaden, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, a sylffwr deuocsid.

Bydd Cyngor Sir Benfro yn monitro mewn nifer o leoliadau yn Sir Benfro. Yn achos gormodiant, diffinnir Ardal Reoli Ansawdd Aer a chyflwynir strategaeth i leihau'r llygrydd. Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn y Parc Cenedlaethol.



Yn gyffredinol, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau am ansawdd aer amgylchynol gerllaw ffynonellau diwydiannol neu ar ochr y ffordd, ond mae'r tueddiadau'n dangos cynnydd yng nghrynodiadau nitrogen deuocsid sy'n gysylltiedig ag allyriadau o gerbydau drwy Sir Benfro i gyd.

Mae amonia o ffynonellau amaethyddol hefyd yn broblem, ac mae'r crynodiad cefndirol o amonia yn yr atmosffer yn Sir Benfro yn uwch na'r lefel gritigol. Uwchben y lefel hon, bydd nodweddion bioamrywiaeth sy'n arbennig o sensitif, fel cennau a bryoffytau, yn cael eu niweidio drwy orfaethu nitrogen.

Mae Cod Ymarfer Amaethyddol Da Llywodraeth Cymru yn dangos sut y gall rheolwyr tir ollwng llai o amonia i'r amgylchedd drwy ddilyn arferion da yn y modd y byddan nhw'n porthi ac yn cadw eu da byw, yn storio slyri, yn defnyddio tir, ac yn defnyddio gwrtaith anorganig.

### 5.2.8 Priddoedd a charbon yn y pridd

Nid yw cyflwr y priddoedd yn y Parc Cenedlaethol yn hysbys iawn, ond credir bod y priddoedd yn gyffredinol o dan bwysau yn sgil arferion rheoli tir, a'u bod yn wynebu risg yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae cysylltiad agos yn aml rhwng rheoli dŵr (gan gynnwys llifogydd a sychder) ac adnoddau'r pridd, ac maen nhw'n aml yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae 45% o dir y Parc Cenedlaethol yn Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas[35]. Drwy Gymru gyfan, mae disgwyl i arwynebedd y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas haneru erbyn 2080, gyda sychder yn bennaf cyfrifol am hynny. Mae glawiad dwysach ac arferion rheoli tir yn cyfrannu at gyfraddau erydu pridd uwch, yn enwedig mewn ardaloedd bregus.

Mae newidiadau mewn defnydd tir ac arferion rheoli yn



effeithio ar fioamrywiaeth y pridd, gyda dirywiad yn organebau allweddol y pridd i'w weld mewn rhai ardaloedd.

Dim ond 3-4% o Gymru sydd wedi'i gorchuddio â chynefinoedd mawndiroedd. Eto i gyd, mae'r rhain yn storio 20-25% o'r holl garbon sydd yn y pridd. Mae priddoedd mawnog yn gorchuddio tua 385 hectar (0.6%) o arwynebedd y Parc Cenedlaethol. Serch hynny, mawndiroedd sydd wedi'u haddasu drwy ddraenio a thrin y tir yw rhai o'r priddoedd sy'n allyrru'r mwyaf o garbon, gan eu bod yn brin o'r mwsogl sy'n ffurfio mawn a heb lefel trwythiad ddigon uchel i'w cynnal.

Mae priddoedd yn cymryd amser hir i ffurfio, ac yn ôl graddfeydd amser pobl, gellid eu hystyried yn adnodd anadnewyddadwy. Mewn rhai achosion, mae'n debygol bod angen brys i newid y dulliau rheoli er mwyn atal y pridd rhag diraddio ac atal colli pridd a cholli biota mewn pridd. Bydd gwaith cadwraeth ar bridd yn ei alluogi i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn gwarchod refeniw amaethyddol yn y dyfodol, yn gwarchod bioamrywiaeth y pridd, ac yn gwarchod swyddogaethau gweithredol fel cyfraniad priddoedd at y gylchred carbon.

Er bod y storfeydd carbon (uwchben y ddaear ac o dan y ddaear ill dau) mewn coetiroedd yn uchel, mae glaswelltir cadwraeth yn storfa garbon sefydlog, ac mae adfer dolydd yn gweddu'n well dros rannau mwy o dirwedd y Parc Cenedlaethol na phlannu coed newydd.

[29]Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fodel i ragfynegi ansawdd dŵr, wedi'i seilio ar y glawiad rhagfynegol, ar gyfer Poppit Sands, Traeth Trefdraeth ac Aberllydan. Mae'r model yn cael ei roi ar waith bob bore. Mae modd gweld y wybodaeth ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
[30]Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Bydd dosbarthiad Interim Cylch 3 ar gael yn gynnar yn 2025.
[31]Pan fydd dŵr croyw o afonydd neu nentydd yn cymysgu â dŵr môr, e.e. mewn morydau, morlynnoedd arfordirol, ac afonydd llanw. Mae'r cyfuniad o ddŵr croyw a dŵr heli yn yr ardaloedd hyn yn creu amgylchedd unigryw sy'n cynnal ecosystemau amrywiol ac sy'n aml yn feithrinfeydd i rywogaethau amrywiol o bysgod, pysgod cregyn a mathau eraill o fywyd morol.
[32]Mae diwygiadau i ganllawiau monitro'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi arwain Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu ei amcanion cadwraeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â ffosfforws, lle mae'r targedau wedi'u gwneud yn fwy llym o lawer. Yn Sir Benfro, mae systemau afon Teifi ac afonydd Cleddau wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol.
[33] Yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, rhaid i gynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ddangos na fyddan nhw'n cael dim effaith niweidiol ar eu cyfanrwydd. Yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith dŵr, ni ddylai datblygiadau arwain at ddirywiad mewn cyrff dŵr a dylen nhw helpu i sicrhau 'statws da' i bob corff dŵr. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau o ran ansawdd dŵr, rheoli adnoddau, ac iechyd ecolegol. Rhaid i gynigion datblygu ddangos na fyddan nhw fan lleiaf yn ychwanegu at lefelau'r ffosffadau yn y corff dŵr dan sylw, neu y byddan nhw'n lleihau'r lefelau hynny. Ers cyhoeddi'r adroddiad, 'Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws', mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Ar ôl cael y cyngor hwnnw, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu'r data am ansawdd dŵr morol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
[34]Mae Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro (Mai 2014) yn dangos yr adnoddau sydd ar gael mewn pwyntiau asesu penodedig. Nid yw'r cyhoeddiad sy'n dweud faint o adnoddau sydd ar gael wedi'i ddiweddaru ers 2014, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddaru'r ffynonellau data er mwyn rhoi cyngor am geisiadau newydd am drwyddedau tynnu dŵr a cheisiadau i newid trwyddedau presennol.
[35]Mae'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn dosbarthu tir yn ôl pum gradd, gyda Gradd 3 wedi'i hisrannu yn Israddau 3a a 3b. Graddau 1, 2 a 3a yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas.

## 5.3 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: cenhadaeth

- Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r rheini
- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

## 5.4 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: canlyniadau

1. Byddwn ni'n haneru'r allyriadau carbon yn ardal y Parc Cenedlaethol erbyn 2030 (o sylfaen 2021). Dyma garreg filltir tuag at darged Race to Zero i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050.
2. Byddwn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar bethau fel cymunedau arfordirol, ffyrdd a seilwaith, a hawliau tramwy.
3. Byddwn ni'n gwarchod ac yn gwella iechyd y pridd ac yn gwella ein storfeydd carbon naturiol (gan gynnwys storfeydd mewn amgylcheddau morol ac arfordirol).
4. Byddwn ni'n cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau gostyngiad o 50% fan lleiaf erbyn 2030 yn y maethynnau a gaiff eu hychwanegu[36].
5. Byddwn ni'n cydweithio i leihau effeithiau negyddol llygredd maethynnau ar ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol ac er eu defnydd.
6. Byddwn ni'n lleihau allyriadau amonia o'r sector amaethyddol.

[36]Mae targed 7 yn Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal yn canolbwyntio ar leihau maethynnau gormodol a lleihau effaith llygredd maethynnau ar ecosystemau.



## 5.5 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: polisïau a dulliau mesur


| Polisi | Canlyniadau | Monitro |
|---|---|---|
| N1: Cyfrannu at greu Cymru carbon niwtral | 1 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Data a rhagamcaniadau ôl-troed carbon<br>• Y perfformiad o dan bolisi 33 Cynllun Datblygu Lleol 2 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel<br>• Adroddiadau Sero Net Llywodraeth Cymru<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant yr Hinsawdd, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith<br><br>Cyngor Sir Benfro<br>• Adroddiadau Sero Net Llywodraeth Cymru<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro<br>• Monitro'r cynllun Datgarboneiddio a Sero Net |



| | | |
|---|---|---|
| N2: Addasu i'r newid yn yr hinsawdd | 2 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 34 Cynllun Datblygu Lleol 2 Llifogydd a Gorlif Arfordirol<br>• Y perfformiad o dan bolisi 35 Cynllun Datblygu Lleol 2 Datblygiad yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol<br>• Y perfformiad o dan bolisi 36 Cynllun Datblygu Lleol 2 Adleoli anheddau parhaol presennol yr effeithir arnynt gan newid arfordirol<br>• Y perfformiad o dan bolisi 37 Cynllun Datblygu Lleol 2 Adleoli a disodli datblygiadau (heblaw preswyl) yr effeithir arnynt gan newid arfordirol<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant yr Hinsawdd, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro<br>• Monitro'r prosiect Addasu i'r Hinsawdd |



| | | |
|---|---|---|
| N3: Gwarchod a gwella priddoedd a storfeydd carbon naturiol | 3 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig |
| N4: Gwarchod a gwella ansawdd y dŵr ac adfer cyrsiau dŵr naturiol | 4 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Data monitro adnoddau ac ansawdd dŵr<br><br>Dŵr Cymru<br>• Data am orlifoedd storm<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig |
| N5: Gwarchod ansawdd yr aer | 5 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Monitro, modelu ac asesu ansawdd yr aer; monitro rhywogaethau sy'n sensitif i lygryddion<br><br>Cyngor Sir Benfro<br>• Asesiadau Diweddaru a Sgrinio Ansawdd yr Aer<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Y perfformiad o dan bolisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Nodweddion Arbennig |



## 5.6 Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol: camau gweithredu 2025-2029

Gweler hefyd y ffrydiau gwaith yn yr adran Cadwraeth.

**Ffrwd waith: Sero Net**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| N1/A | Cyflawni *Cymru* Sero Net: mae'r targedau'n cynnwys creu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a Pharc Cenedlaethol carbon niwtral erbyn 2048 (*y Race to Zero*), a hynny'n gofyn am barhau i gydweithio â phartneriaid i ddarparu opsiynau carbon niwtral neu garbon isel ar gyfer ynni, datblygu, teithio a bwyd, er mwyn pontio'n gyfiawn i sefyllfa sero net a chreu economi gylchol. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro | Partneriaid Cynllun Ynni'r Ardal Leol<br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| N1/B | Rhoi ar waith bolisïau a chanllawiau *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym meysydd hierarchaeth ynni, dylunio cynaliadwy, a draeniau a gwastraff. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |



| | | | |
|---|---|---|---|
| N1/C | Cefnogi busnesau fferm i leihau carbon drwy gyfrannu at niwtraleiddio carbon a chymryd camau i leihau carbon. | Cyswllt Ffermio<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro |
| N1/D | Parhau i ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i hybu prosiectau carbon isel cymunedol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Grwpiau cymunedol |
| N1/E (gweler hefyd SE1/J) | Darparu cynlluniau hygyrch a fforddiadwy ym meysydd trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a cherbydau carbon isel. | Cyngor Sir Benfro | Partneriaeth Greenways |



**Ffrwd waith: Addasu i'r newid yn yr hinsawdd**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| N2/A | Rhoi ar waith bolisïau a chanllawiau *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan gynnwys y rheini ym meysydd llifogydd o'r môr, datblygu mewn ardaloedd rheoli newid arfordirol, ac adleoli datblygiadau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnyn nhw. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cwmnïau cyfleustodau |
| N2/B | Rheoli'r broses o addasu arfordirol yng nghyd-destun y ddau Gynllun Rheoli Traethlin a *Chynllun Datblygu Lleol 2* Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; cydweithio ar brosiectau addasu. | Cyngor Sir Benfro<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| N2/C | Cydweithio i roi ar waith Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Sir Benfro 2022. | Cyngor Sir Benfro | Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |



**Ffrwd waith: Priddoedd a storio carbon**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| N3/A | Gwarchod a gwella priddoedd (gan gefnogi'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd), a gwarchod gwlyptiroedd, cynefinoedd lled-naturiol, coetiroedd a choed yn y dirwedd. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rheolwyr tir |
| N3/B | Rhoi ar waith bolisïau a chanllawiau Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym meysydd y pridd, dŵr, aer a threftadaeth y ddaear. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| N3/C (gweler hefyd E2/D) | Adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli. | Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd | Sky Ocean Rescue World Wide Fund for Nature |



**Ffrwd waith: Adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| N4/A | Rhoi ar waith bolisïau a chanllawiau *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan gynnwys cyflwyno Systemau Draenio Cynaliadwy. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| N4/B | Gwella'n sylweddol ansawdd y cyrff dŵr yn y Parc Cenedlaethol sydd yn y dosbarth gwael neu gymedrol, yng nghyd-destun *Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru 2021 – 2027.* | Cyfoeth Naturiol Cymru | Undeb Amaethwyr Cymru<br>Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru<br>Y Byrddau Rheoli Maethynnau |
| N4/C | Lleihau'n sylweddol y niwed amgylcheddol o ollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm, gan gynnwys gweithio o fewn fframwaith *Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Afonydd Cleddau a Sir Benfro.* | Dŵr Cymru Welsh Water | Y Byrddau Rheoli Maethynnau |



| | | | |
|---|---|---|---|
| N4/D | Rheoli'r risg o lifogydd, yng nghyd-destun y Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (De-orllewin Cymru) 2023-2029. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyngor Sir Benfro |
| N4/E (see also E2/I) | Lleihau plastigion a microblastigion yn yr amgylchedd ac yn eu tarddiad. | Llywodraeth Cymru | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid yn y diwydiant<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau |



**Ffrwd waith: Ansawdd aer**

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| N5/A | Gweithio gyda ffermwyr i leihau'r amonia a ollyngir i'r amgylchedd wrth reoli da byw. | Cyswllt Ffermio<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro |
| N5/B | Cyflawni targedau ansawdd aer cenedlaethol Cymru sydd wedi'u cyflwyno ym Mil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru). | Cyngor Sir Benfro | Partneriaeth Greenways |



# 6 Cymunedau

## 6.1 Cefndir

**Mae dibenion y Parc Cenedlaethol – gwarchod y dirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth, a helpu'r cyhoedd i'w mwynhau a'u deall – yn arwain yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at amrywiaeth eang o fuddion cymdeithasol ac economaidd.**

Er enghraifft, gall y dirwedd gyfrannu at gynhyrchu gwres a thrydan adnewyddadwy, tra bydd priddoedd iach yn galluogi ffermwyr a chymunedau i dyfu cnydau ac i fagu da byw.

**Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i hybu lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc wrth geisio cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.**

**Mae'r holl themâu yn y Cynllun hwn gan hynny'n cyfrannu at les economaidd-gymdeithasol.**

Bydd polisi a chanllawiau cynllunio datblygu yn helpu i lywio datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r polisïau cynllunio datblygu presennol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol i'w canfod yng *Nghynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (tan 2031).* Awdurdod y Parc Cenedlaethol a baratôdd y cynllun hwn.

Mae Cyngor Sir Benfro yn darparu nifer o wasanaethau i gymunedau ledled Sir Benfro, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, o gynnal a chadw priffyrdd i waredu gwastraff.

Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol wella pa mor deg yw canlyniadau i bobl sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae heriau sy'n gysylltiedig â thlodi arfordirol a gwledig, tai fforddiadwy, costau byw, natur



dymhorol swyddi a thlodi mewn gwaith i gyd yn effeithio ar lesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau yn y Parc Cenedlaethol. Mae partneriaid yn gweithio i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn cyfleoedd gwaith newydd sy'n gysylltiedig â'r pontio i swyddi gwyrdd ac ynni morol.

Drwy gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, gall cyrff cyhoeddus sy'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol a'r ardal o'i hamgylch gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol ac ar lesiant economaidd y Parc.

Uchelgais Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro yw "tyfu twristiaeth er budd Sir Benfro" ac mae'r egwyddorion canlynol ar gyfer yr economi ymwelwyr yn llywio hynny:

- bod o fudd i gymunedau lleol gan greu bywiolaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm
- helpu i warchod a dathlu hunaniaethau a thraddodiadau diwylliannol unigryw
- cefnogi'r economi gylchol yn Sir Benfro gan helpu busnesau i ddatblygu a ffynnu
- gwarchod a pharchu'r amgylchedd a helpu i adfer ecosystemau ac adnoddau naturiol
- rhoi croeso a bod yn gynhwysol i bawb.

**Mae partneriaethau strategol lleol a rhanbarthol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru yn rhoi cyfle mawr i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n wynebu cymunedau.**

**Mae cymunedau lleol, rheolwyr tir, busnesau a datblygwyr yn bartneriaid o bwys wrth helpu cyrff cyhoeddus a chyrff elusennol i gynnal rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, gan sicrhau bod ei dirweddau'n parhau i roi gwerth economaidd a diwylliannol i genedlaethau'r dyfodol.**





## 6.2 Cyflwr y Parc: Cymunedau

### 6.2.1 Poblogaeth

- Poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn ôl Cyfrifiad 2021 oedd 20,933, sy'n ostyngiad o 7.6% ers Cyfrifiad 2011 (22,644). Dyma'r gostyngiad mwyaf ym mhoblogaethau holl Barciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr rhwng y ddau gyfrifiad.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod dros draean (33.2%) y trigolion yn 65 oed a hŷn.

### 6.2.2 Yr Economi

- Cynnyrch Domestig Gros Sir Benfro yn 2021 oedd £3.6 biliwn.
- Y ddau ddosbarth cyflogaeth uchaf yn y Parc Cenedlaethol i bobl rhwng 16 a 74 oed mewn gwaith yw: gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (13.8%); gweithgareddau gwasanaethau bwyd a llety (13.2%).
- Mae'r economi dwristiaeth yn sbardun economaidd hollbwysig i Sir Benfro, a harddwch y Parc Cenedlaethol yw un o'r prif resymau pam y bydd nifer o bobl yn ymweld â'r ardal.
- Mae'r swyddi'n aml yn talu cyflogau isel (roedd dros 25% o'r gweithwyr amser llawn yn ennill llai na £18,000 y flwyddyn yn 2017) ac yn aml yn swyddi tymhorol (mae'r cyfraddau sy'n hawlio budd-daliadau yn y gaeaf bron i ddwbl y cyfraddau yn yr haf).
- Mae sectorau newydd yn datblygu yn Sir Benfro, yn enwedig y sector ynni morol.

### 6.2.3 Tlodi

- Ceir cysylltiad anorfod rhwng yr economi, cydraddoldeb a thlodi. Ceir hefyd gysylltiadau cryf rhwng tlodi a chanlyniadau iechyd a lles gwael. Os na fydd dim yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn, gall waethygu'r



anghydraddoldebau presennol.

- Mae tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol, gyda chostau byw'n gwaethygu'r sefyllfa. Mae tlodi gwledig yn aml yn llai gweladwy na thlodi trefol.
- Dangosodd dadansoddiad yr End Child Poverty Coalition o ddata 2021/22 mai Sir Benfro oedd y sir â'r bumed ganran uchaf o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ar ôl ystyried costau tai, sef 29.0%. Mae disgwyl i dlodi plant gynyddu yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig.
- Mae costau tai'n cyfrannu at y cyfraddau tlodi plant yn Sir Benfro. Mae darparu tai fforddiadwy, yn enwedig i bobl ifanc a theuluoedd, yn parhau i fod yn broblem sydd i'w gweld ar lefel genedlaethol a lleol.

### 6.2.4 Tai

- Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yng ngweddill Sir Benfro; yn 2023 roedd canolrif pris gwerthu tai yn y Parc Cenedlaethol 9.67 yn uwch na chanolrif y cyflogau[37].
- Mae'r rhan fwyaf o wardiau'r cyngor sir yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y 10% mwyaf amddifad yng Nghymru ym mharth 'mynediad i wasanaethau' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd cyfradd y stoc dai gyffredinol a gâi ei defnyddio fel ail gartrefi / tai gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr, sef 26.7%.
- Ceir lefel uchel o alw am dai fforddiadwy, gyda 4,515 ar restr aros ChoiceHomes@ Pembrokeshire ym mis Hydref 2024. O blith y rhain, roedd y mwyafrif yn aros am eiddo 1 ystafell wely (2,743) neu 2 ystafell wely (1,064).

Mae'r heriau sy'n wynebu cymunedau lleol o ran tai yn

[37]Ar sail codau post sydd ag o leiaf draean eu harwynebedd yn y Parc Cenedlaethol.



amlwg iawn, ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cydnabod pa mor hollbwysig yw darparu tai fforddiadwy yng *Nghynllun Datblygu Lleol 2* a sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael i gymunedau lleol, a hynny yng nghyd-destun ehangach gwarchod y dirwedd.

Mae partneriaid fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chwmnïau adeiladu'n hollbwysig er mwyn darparu datblygiadau o ansawdd da yn yr amgylchedd sensitif hwn, ac er mwyn sicrhau bod tai a swyddi lleol ar gael sy'n gallu helpu i gadw siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau sy'n ieithyddol sensitif.

### 6.2.5 Trafnidiaeth a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau

Mae gan y Parc Cenedlaethol boblogaeth fawr, ond mae'r boblogaeth honno'n wasgaredig, sy'n ychwanegu at yr heriau wrth geisio defnyddio gwasanaethau a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Mae cau gwasanaethau lleol a'r pellter teithio i gyrraedd rhai gwasanaethau'n golygu y gall hi fod yn anodd defnyddio gwasanaethau hanfodol mewn rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol. Mae nifer cymharol uchel yr aelwydydd nad ydyn nhw'n berchen ar gar (13.7% yn ôl Cyfrifiad 2021) yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

I drigolion ac ymwelwyr sy'n awyddus i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r opsiynau'n gyfyngedig. Mae'r gwasanaethau trenau ar y brif lein yn gwasanaethu Sir Benfro drwy dair lein reilffordd i Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Mae'r gwasanaethau'n anfynych ac yn araf, ac er bod cynlluniau i wella'r ddarpariaeth hon, rhai cyfyngedig ydyn nhw. Mae'r gwasanaethau bysiau yn Sir Benfro yn dibynnu ar gymorthdaliadau cyhoeddus, ac mae pwysau mawr yn hynny o beth. Mae'r rhain yn rhwystro pobl sy'n dibynnu ar y



gwasanaethau hyn rhag gallu'u defnyddio a chymryd rhan mewn pethau.

Mae Mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer Sir Benfro yn dangos llwybrau cerdded a seiclo sy'n bodoli'n barod a'r rhai sydd yn yr arfaeth. Mae'r rhain wedi'u crynhoi o amgylch yr aneddiadau dynodedig; mae angen gwneud mwy i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i deithio'n llesol mewn trefi a phentrefi. Mae rhwydwaith llwybrau beicio Sir Benfro yn teithio ar hyd y ffyrdd yn bennaf (oherwydd natur hanesyddol y rhwydwaith priffyrdd). Mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r pellteroedd gan amlaf yn fwy, mae cyfle i ddefnyddio beiciau trydan yn ddiogel i gyfrannu mwy at ddewisiadau teithio llesol.

Mae'r heriau yn y maes trafnidiaeth yn cynnwys yr angen i weithredu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau trenau mwy mynych, cyflymach a mwy dibynadwy ar y brif lein i Sir Benfro. Mae angen integreiddio rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwneud hwn yn ddewis atyniadol ac mae angen darpariaeth ar gyfer ymwelwyr sy'n dymuno dod i Sir Benfro heb gar.
- Hybu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyffredinol i allu cefnu ar ddibyniaeth ar geir preifat a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol ac atyniadol i drigolion ac ymwelwyr. Mae angen i opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl. Mae angen gwella seilwaith bysiau: gwell llefydd aros a llochesi, darparu gwybodaeth a sgriniau sy'n dangos gwybodaeth amser real, darparu gwybodaeth am brisiau bysiau, a gwell integreiddio rhwng gwasanaethau.



- Gwella gwasanaethau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw ac opsiynau trafnidiaeth gymunedol i helpu gyda phroblemau hygyrchedd.
- Cefnogi a datblygu opsiynau teithio llesol mewn trefi a phentrefi, gan gynnwys gwell darpariaeth i barcio beiciau mewn trefi, pentrefi a chyrchfannau ymwelwyr amlwg.

## 6.3 Cymunedau: cenhadaeth

Meithrin llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol wrth geisio cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

## 6.4 Cymunedau: canlyniadau

1. Byddwn ni'n cyrraedd holl dargedau'r Cynllun Datblygu Lleol, e.e. 60 cartref newydd y flwyddyn, gyda 23 yn fforddiadwy.
2. Byddwn ni'n lleihau'r rhestr aros sylweddol am dai fforddiadwy yn Sir Benfro (dros 4,500 yn 2024).
3. Byddwn ni'n cyfrannu at gyflawni Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023.
4. Byddwn ni'n datblygu ac yn cyflawni prosiectau a chynlluniau sydd o fudd i'r rheini sy'n wynebu anghydraddoldeb ac amddifadedd, ac yn enwedig plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd o amddifadedd.
5. Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a'r cyfleoedd gwaith cyfyngedig.
6. Byddwn ni'n cyflwyno strategaethau caffael sy'n cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol, gan gyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd caffael cymdeithaso gyfrifol.
7. Byddwn ni'n cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-2028.
8. Byddwn ni'n cynnal ac yn ehangu opsiynau trafnidiaeth



gynaliadwy a theithio llesol i gyrraedd y targed, sef bod 45% o siwrneiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040.

## 6.5 Cymunedau: polisïau a dulliau mesur

| Polisi | Canlyniadau | Monitro |
|---|---|---|
| SE1: Meithrin llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol (wrth geisio cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol). | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>• Data prosiectau a dangosyddion Amcanion Llesiant Cymunedau, adroddiadau Adolygiadau Gweithredol ac astudiaethau achos o'r effaith<br>• Adroddiadau monitro blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro<br>• Monitro'r prosiect Lleihau Tlodi ac Anghydraddoldebau<br>• Monitro'r prosiect Cryfhau Cymunedau |

*Gweler hefyd yr holl gyfeiriadau eraill at bolisïau a gwaith monitro yn y Cynllun hwn.*



## 6.6 Cymunedau: camau gweithredu 2025-

### Ffrwd waith: Llesiant economaidd-gymdeithasol

| Cyf | Camau gweithredu partneriaid | Arweinydd | Y prif bartneriaid cyflawni |
|---|---|---|---|
| SE1/A | Rhoi ar waith bolisi *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio; mae'r polisi'n rhoi sylw, er enghraifft, i ddatblygiadau mawr, safleoedd amddiffyn, goleuadau, amwynderau, cyflogaeth (gwaith teg), tai. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Cyngor Sir Benfro | Datblygwyr<br><br>Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru |
| SE1/B | Darparu cartrefi addas, gan gynnwys tai fforddiadwy, i gymunedau lleol drwy'r system gynllunio a thrwy gydweithio. Dilyn polisïau gosod lleol ar safleoedd eithriedig gwledig pan fydd hynny'n addas a phan fydd y dystiolaeth yn dangos eu bod nhw'n helpu i gyflawni'r canlyniadau y dymunir eu gweld. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Cyngor Sir Benfro | Adeiladwyr tai<br><br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig |



| | | | |
|---|---|---|---|
| SE1/C | Datblygu sylfaen dystiolaeth am y mathau o gartrefi a'r anghenion (e.e. y berthynas â'r Gymraeg, rhannu data am ail gartrefi / tai gwyliau, ystyried opsiynau ar gyfer cyd-berchnogaeth leol). | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Cyngor Sir Benfro | |
| SE1/D | *Cyflawni Trechu Tlodi: Ein Strategaeth* (a ddatblygwyd fel rhan o brosiect Lleihau Tlodi ac Anghydraddoldebau Cynllun Llesiant Sir Benfro). | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro | |
| SE1/E | Cyflawni'r prosiect *Cryfhau Cymunedau* o dan Gynllun Llesiant Sir Benfro. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro | |
| SE1/F | Helpu i ddatblygu sgiliau, llwybrau i waith a chyfleoedd gwaith teg yn y diwydiannau presennol a'r diwydiannau sy'n datblygu yn y Parc Cenedlaethol (gan gynnwys yn y sector ynni morol). | Coleg Sir Benfro<br><br>Fforwm Arfordirol Sir Benfro | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Cyngor Sir Benfro |



| | | | |
|---|---|---|---|
| SE1/G | Cyflwyno strategaethau caffael i gefnogi'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. | Cyngor Sir Benfro<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| SE1/H | *Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28* er mwyn hybu twristiaeth atgynhyrchiol ac economi ymwelwyr sydd o fudd i gymunedau, gan greu bywoliaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm. | Ymwelwch â Sir Benfro | |
| SE1/I | Helpu i gyflawni a monitro *Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarth De-Orllewin Cymru* drwy Gyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru. | Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru | |
| SE1/G (gweler hefyd N1/E) | Helpu i ddarparu cynlluniau hygyrch a fforddiadwy ym meysydd trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a cherbydau carbon isel. | Cyngor Sir Benfro<br><br>Trafnidiaeth Cymru | Cymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro |



# 7 Y camau nesaf

**Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i weithio drwy grŵp y Cynllun Partneriaeth, a chyda sefydliadau eraill a chymunedau, er mwyn gweithredu ar y cyd a monitro canlyniadau'r Cynllun Partneriaeth[38].**

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol:

- yn gweithio gyda'i brif bartneriaid i gynnal neu i gychwyn camau gweithredu yn y ffrydiau gwaith amrywiol sy'n berthnasol i'r cenadaethau
- yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd am effeithiau polisïau a chamau gweithredu er mwyn dathlu llwyddiannau a rhannu gwersi i'w dysgu
- yn gweithio gyda phartneriaid i roi ar waith argymhellion yr asesiadau o'r effaith, er enghraifft mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg a chydraddoldeb

Bydd partneriaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Cynllun Partneriaeth yn sail i'w strategaethau a'u cynlluniau eu hunain, ac i rannu a dathlu'r cyfraniadau hynny.

Os hoffech chi drafod unrhyw elfen yn y Cynllun Partneriaeth, cysylltwch â:

**Y Tîm Polisi Strategol**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Parc Llanion**
**Doc Penfro**
**SA72 6DY**
**Ffôn: 01646 624800**

**parkplan@pembrokeshirecoast.org.uk**

**cynllunyparc@arfordirpenfro.org.uk**

[38]Gweler hefyd adran 1.12 yn y Cynllun hwn, "Cyflawni'r Cynllun mewn partneriaeth.



# Atodiad 1 – Enghreifftiau o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau perthnasol

Mae'r enghreifftiau hyn i fod i gynrychioli'n fras y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni a restrir yn Atodiad A yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (a adolygwyd ym mis Ionawr 2025).

## Deddfwriaeth

- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gan gynnwys egwyddorion y pum ffordd o weithio[39])
- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gan gynnwys egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy[40]
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 / Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## Polisïau a chynigion

- Amcanion Llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2022 (gan gynnwys y targed 30x30)
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025
- Cymraeg 2050
- Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040
- Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad terfyn 2031)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro
- Cynllun Llesiant Sir Benfro 2023-2028
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28
- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd De-Orllewin Cymru 2023-2029
- Cynllun Strategol Sero Net 2022
- Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-Orllewin Cymru (2025-2030)
- Cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb – Llywodraeth Cymru (a chynlluniau cysylltiedig eraill e.e. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Benfro a chyrff cyhoeddus eraill
- Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol i Gymru
- Datganiad Ardal Morol
- Datganiad Ardal y De-Orllewin
- Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn 2024, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer fframwaith targedau statudol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, i'w ddarparu drwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, gyda'r nod o wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a sicrhau adferiad amlwg erbyn 2050

- Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol
- Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021
- Maniffesto Ieuenctid Cenhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- National Parks UK: 'Climate Emergency Response Statement'
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Chwefror 2024
- Strategaeth Risg Llifogydd Lleol Sir Benfro
- Strategaethau Hyrwyddo'r Gymraeg (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Benfro)
- Y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd
- Y Cwricwlwm i Gymru
- Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg
- Y Fframwaith Pontio Teg ar gyfer sero net
- Y Polisi ar Adnoddau Naturiol 2017[41]

## Canllawiau ac Adnoddau

- Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020 / Pontydd i'r Dyfodol
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2021)
- Canllawiau Cynlluniau Rheoli Tirweddau Dynodedig (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Gweledigaeth Natur a Ni (2023) ar gyfer 2050 lle bydd cymdeithas a byd natur yn ffynnu gyda'i gilydd, a lle bydd pobl yn cymryd mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar fyd natur
- LANDMAP – llinell sylfaen tirwedd Cymru
- Sefyllfa Byd Natur
- State of the UK Climate Report 2023
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru
- Trydydd Asesiad Risg y Deyrnas Unedig o'r Newid yn yr Hinsawdd: Crynodeb i Gymru

Yn y dyfodol, rhaid i'r Cynllun Partneriaeth hefyd roi ystyriaeth i'r adroddiad am reoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae disgwyl yr adroddiad cyntaf o'i fath ym mis Rhagfyr 2026, ac felly bydd hynny'n digwydd yn ystod oes y Cynllun hwn.

# Atodiad 2 – Asesiadau o'r Effaith

I gyd-fynd â'r Cynllun Partneriaeth hwn, ceir cyfres o asesiadau statudol unigol o'i effaith.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod (yng nghamau ffurfiannol creu polisïau, gweithdrefnau, ymarfer neu ganllawiau) ystyried effaith y cynigion ar bobl sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hynny yw, pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig o ran oedran, rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried yr angen i gael gwared ar wahaniaethu, i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, ac i feithrin perthnasau da rhwng gwahanol gymunedau.

Mae effeithiau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'u hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys elfennau o groestoriadedd (hynny yw, y ffyrdd y mae systemau ac agweddau niferus ar anghydraddoldeb yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu profiadau a chanlyniadau gwahanol), ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r effeithiau ar iechyd hefyd wedi'u hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[42] ("y Rheoliadau Cynefinoedd"). Yn unol â Rheoliad 63, rhaid asesu'r Cynllun Partneriaeth i ganfod ei effeithiau sylweddol tebygol ar Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig), a safleoedd Ramsar. Gelwir asesiad o'r fath yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

## Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaethau a pholisïau'r Cynllun Partneriaeth. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn galw am gynnal asesiad ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd[43]. Mae modd cyflawni gofynion y naill a'r llall mewn un arfarniad.

## Asesiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diffinio datblygu cynaliadwy fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu i gyflawni'r nodau llesiant, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y Cynllun Partneriaeth yn cael ei asesu o dan saith nod Cymru a'r pum ffordd o weithio o dan y Ddeddf.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Rhaid adolygu'r Cynllun Partneriaeth yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Rhaid i'r Awdurdod fynd ati'n gydwybodol i ystyried[44] effeithiau penodol posibl polisïau ar y Gymraeg, a hynny drwy Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

[39]Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno pum ffordd o weithio. Y bwriad yw y bydd y Cynllun Partneriaeth (cynllun sy'n arwain at brosiectau) yn cyflawni'r pum ffordd o weithio (ac yn parhau i wella ar y rheini) fel a ganlyn. Hirdymor: Mae'r Cynllun yn mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Atal: Mae'r Cynllun yn cynnig ffyrdd o osgoi problemau, a chynllunio mewn modd sy'n osgoi problemau, ynghyd â ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau. Integreiddio: Mae'r Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion a nodau llesiant lleol a chenedlaethol, â blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, ac â'r Datganiadau Ardal perthnasol. Cydweithio a Chynnwys: Os yw proses y Cynllun Partneriaeth i ychwanegu gwerth, dylai hybu cydweithio rhwng partneriaid a dylai gynnwys trawsdoriad cynrychioladol o gymdeithas. Mae'r broses o adolygu'r cynllun a'i roi ar waith yn rhoi cyfle parhaus i ddechrau sgyrsiau newydd a meithrin a chynnal perthnasau newydd. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Partneriaeth wedi canfod bod rhagor o botensial i gydweithio.
[40]Mae'r egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'w cael yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y rhain yw: ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu; hyrwyddo cydweithio a chydweithredu; gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau; ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch; ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau; ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd; cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau; ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol amrywiaeth, cysylltiadau, graddfa, cyflwr (gan gynnwys strwythur a gweithrediad) a gallu ecosystemau i addasu.
[41]Mae hwn yn enwi tair blaenoriaeth genedlaethol: darparu atebion sy'n seiliedig ar natur; cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy; a dilyn dull o weithio sy'n seiliedig ar leoedd.
[42]Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
[43]Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC fel y'i troswyd i gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.
[44]Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot vs Comisiynydd y Gymraeg. Amlygodd penderfyniad y Tribiwnlys ddwy elfen bwysig: (1) Rhaid i sefydliadau gynnwys digon o wybodaeth mewn dogfennau ymgynghori am effeithiau posibl eu cynigion ar y Gymraeg, er mwyn i'r cyhoedd allu eu hystyried ac ymateb yn ddeallus iddyn nhw. Mae hynny'n golygu ei bod yn angenrheidiol gwneud mwy na dim ond datgan bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r effeithiau. Rhaid gwneud ymdrech gydwybodol i ganfod y ffactorau perthnasol a'u heffaith ar y Gymraeg. (2) Rhaid ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.